Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 12. Rhif 8.] AWST, 1912. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Y Gymdeithas Undodaidd.
Adroddiad yr Ysgrifenydd.

Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.

Pregeth.
Parch. Jenkyn Thomas, Glossop.

Crefydd a Gwybodaeth.

Oddiar y Twr.

Eglwys Lloegr yn Nghymru.
Parch. J. Glynne Davies, Aberdâr.

Y Gymdeithas Undodaidd.
Y Cyfarfodydd Blynyddol.

Priodasau. Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Miss J., Riverside; Mrs. J., Llandyssul; Parch. S. E. B., Crumlin, Co. Antrim; Parch. J. D. D., Belfast; Mrs. J., Llanover; Mrs. R., Penderyn; J. E., Nantymoel; Miss D., Cellan; J. M., Blaengwynfi; D. R., St. Paul's Cray, Kent; D. J., Clydach Vale; D. H. J., Grenada; J. L., Bersham; E. J., New Tredegar; Mrs. J., Cribyn; J. D., Hackney Road; J. J., Aberaman; J. R., Pontbrenllwyd.

LLYFRAU AR WERTH . .

— GAN —

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

GWEITHIAU GWILYM MARLES. 1s. 6c.
COFIANT PHILLIPS HOREB. Pris gostyngol, 1s.
WEDROSIA: Nofel Ddifyr. 6c.
YR YSGOL FARDDOL (gan Dafydd Morganwg). 2s.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad . . . .

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. —

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1912. [CYF. XII. RHIF 8.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

ADRODDIAD YR YSGRIFENYDD, 1912.

WRTH gyflwyno adroddiad blynyddol y Gymdeithas, rhaid i ni gydnabod nad oes yna un digwyddiad amlwg iawn wedi cymeryd lle yn ystod y flwyddyn ddiweddaf yn mywyd yr eglwysi hyny y perthynwn iddynt. Nid oes yna feusydd gweledig wedi eu hychwanegu at ein gofal, ac y mae genym achos diolch nad oes yna yr un hefyd wedi ei gymeryd oddiarnom. Gan fod ein eglwysi gan mwyaf yn mhlith rhanau gwledig Ceredigion, a chan fod poblogaeth y rhanau gwledig hyny yn raddol fyned i lawr, y mae yn llawenydd meddwl ein bod yn dal ein tir. Efalle y'n bernir ni weithiau fel gweinidogion am nad ydyw yr yspryd cenhadol yn fwy amlwg yn ein hymdrechion, ac am nad oes yna dir newydd yn cael ei dori genym; y mae yn rhaid cofio fod yr amgylchiadau yn anfanteisiol i hyn. Pan nad oes ond chwech gweinidog ar gyfer tair-cynulleidfa-ar-ddeg, a'r rhai hyny gan mwyaf yn wasgaredig iawn, gwelir ar unwaith nad oes gan yr un o'r chwech hyny beth bynag gyfle i wneud gwaith ymosodol mewn cyfeiriadau eraill. A phe buasai y rhagolygon yn obeithiol i dori rhyw faes newydd, nid ydyw safle arianol ein cymdeithas y cyfryw ag y gallem wneud hyn yn llwyddianus. Er hyny y mae llafurus gariad wedi ei ddangos, a llawer o sêl a brwdfrydedd gyda hyny gan weinidogion ac eglwysi er hyrwyddo lledaeniad egwyddorion y grefydd ryddfrydig goleddwn.

Y mae yn llawenydd genym gofnodi fod yna agwedd lewyrchus iawn i'w ganfod yn ein Cymanfaoedd Ysgolion Sul a Chymanfaoedd Canu; y mae yn amlwg fod gan y bobl ieuainc yn arbenig galon i weithio. Nid ydym yn cofio gweled cyfres o Gymanfaoedd mor llwyddianus ag a gawsom eleni, a hon ydyw tystiolaeth eraill hefyd. Y mae yr ymgeiswyr llwyddianus yn Arholiad Blynyddol yr Ysgol

Sul yn lluosocach nag arfer, ond nid yw y gangen hon, fel y dywed yr Ysgrifenydd, yn cael y lle ddylai yn ein holl Ysgolion Sul. Derbynia eglwysi Ciliau a Chapelycwm, Caeronen a Phanteg gynorthwy oddiwrth y Gymdeithas. Y mae yr help dderbyniant yn cael ei werthfawrogi yn llwyr. Drwg genym nad yw y rhagolygon yn galonogol yn Mhanteg. Dibyna yr ychydig ffyddloniaid yno ar *supplies* myfyrwyr a gweinidogion yn achlysurol.

Ymwelir â Phenrhiw yn fisol gan yr Ysgrifenydd, a chyfrifai yno yn ddiweddar gynulleidfa o 75, ac nid ydyw byth o dan 40. Dylid cofio mai nifer fechan mewn cydmariaeth ydyw'r Undodiaid proffesedig yno. Y mae yr hen gapel mewn ystad ganolig iawn. Y mae'r oll o'r gweithredoedd perthynol i'r capel yn ngofal y Mri. Evans & Thomas, Llandyssul.

Digwyddiad dymunol i ni ydyw sefydliad y Parch. D. G. Rees yn weinidog ar eglwysi y Gellionen a Threbanos. Er fod Mr. Rees ei hun yn aelod o'r Gymdeithas hon o'r blaen, a bu yn llanw ei chadair yn ddiweddar, y mae ei eglwysi yn awr hefyd yn aelodau o'r Gymdeithas. Credwn fod iddo ef a'i eglwysi ddyfodol llwyddianus, a'n dymuniad a'n gweddi ni oll ydyw ar iddi fod felly.

Digwyddiad dymunol arall gymerodd le y flwyddyn ddiweddaf ydyw y Pwyllgor etholwyd gan y ddwy Gymdeithas dros Ddeheudir Cymru er edrych ar ol buddianau myfyrwyr Undodaidd yn Ngholeg Caerfyrddin. Y mae y Pwyllgor hwn wedi cwrdd ddwywaith yn barod, ac y mae yn llawenydd genym ddeall fod dau neu dri o'n myfyrwyr a'u gwynebau tuag yno. Y mae y Bwrdd Presbyteraidd, Llundain, hwythau yn llawn gymeradwyo y mudiad hwn. Y mae yn ofid dwfn genym orfod cofnodi marwolaeth Mr. Evan Tom Lewis, Llandyssul, un o'n myfyrwyr. Yr oeddem wedi coleddu syniadau uchel am ei gymhwysderau ar gyfer y gwaith y rhoddes ei fryd arno. Derbynied y teulu ein cydymdeimlad llwyraf yn eu profedigaeth.

Ni fuasai yr adroddiad hwn yn gyflawn heb gyfeiriad at y Llyfr Emynau fwriedir ei ddwyn allan gan y Gymdeithas at wasanaeth ein eglwysi Cymreig. Y mae yn awr ddwy flynedd er pan etholwyd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, i olygu yr emynau, a deallwn fod ei waith ef yn y cyfeiriad hwn yn mron cael ei orphen ; os y medrwn fod yr un mor llwyddianus gyda'r ochr gerddorol, credwn y bydd ein llyfr emynau newydd yn deilwng o gael ei restru yn mhlith y goreu yn yr iaith Gymraeg. Gobeithio y derbynia yr ochr hon ystyriaeth lwyraf y Pwyllgor. Y mae genym mewn llaw dros £40 at y treuliau i'w ddwyn allan, ac ar ol y Pwyllgor hwn heddyw, gobeithio y bydd dros £50, ac yr ydym yn mawr hyderu y gwna Pwyllgor Cymanfa Gerddorol Ceredigion ychwanegu £10 arall pan yn cwrdd y mis nesaf. Ni ddylasem arbed traul er ei wneud y peth goreu posibl. Y mae cylchrediad yr Ymofynydd yn dal ei dir. Dymunol fuasai cael gwaed newydd i redeg drwy ei wythienau bellach, gan fod y Golygydd presenol wedi ceisio goreu fedr ofalu am dano am yn agos i ddeuddeng mlynedd. Er hyny yr ydym am gymeryd y cyfleusdra hwn i gyflwyno ein diolchgarwch llwyraf i'n gohebwyr ffyddlon.

A ydyw yn bosibl i ni ychwanegu at ein nerth a'n gallu? Ydyw, os y mynwn. Y mae Cymdeithas Undodiaid De-Ddwyrain Cymru, yn ddiweddar, wedi casglu y swm anrhydeddus o £500, ac fe fydd hyn yn ychwanegu yn flynyddol at eu derbyniadau, ac yn ychwanegu at y gwaith gyflawnant. A ydyw yn bosibl i ni eu hefelychu yn y cyfeiriad hwn? Y mae brawd gweithgar ac ymroddgar wedi awgrymu i mi, yn gyfrinachol, os y gwnawn ni fel eglwysi Cymreig gasglu £300, y gwna ef gyfranu £25. Dyma hèr yn cael ei roddi i ni; a wnawn ni ei gymeryd i fynu?

Trŷ golygon rhai o honom i'r dyfodol, a gofynwn pa ran gymerwn ni fel cymdeithas o eglwysi i ffurfio a moldio cymeriadau a bywyd crefyddol y dyfodol. Y mae yr ateb yn cael ei benderfynu wrth y gwaith wneir genym yn y presenol, a'r brwdfrydedd ddangosir genym wrth gyflawni y gwaith hwnw. A ydym ni yn credu fod gyda ni wirionedd uwch a gwell a rhagorach am Dduw a dyn, am amser a thragwyddoldeb, nag sydd yn meddiant y byd yn gyffredin? Os y credwn hyny ac argyhoeddiad dwfn tucefn iddo, yna fe fedrwn aberthu ein hunain, ein hamser a'n harian, fel y byddo i ni gyfranu o lawenydd ein ffydd i eraill, ac fel y byddo naws y grefydd broffeswn yn treiddio trwy holl weithredoedd ein bywyd a bywydau eraill, ac fel y byddo i ddelfryd uchelaf Efengyl Iesu Grist gael ei gwireddu ynom a thrwom—cyflwyno dyn Duw yn berffaith,

T. Arthur Thomas.

Llandyssul.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

XIII.

Sut i ddefnyddio y Beibl.

MEWN rhifyn diweddar o newyddiadur cyhoeddedig gan y Seculariaid, darllenais fod "dydd y Beibl drosodd." Yr oedd hyn, i'm tyb i, yr un peth a phe dywedai rhywun sydd wedi llwyddo i fyw ar ffrwythau fod "dydd bara drosodd." Tra y gall

ambell un fyw heb fara, i'r mwyafrif mawr o'r hil ddynol bara yw y bwyd naturiol. *Dydd y Beibl drosodd?* Yn hollol i'r gwrthwyneb i hyn, mi anturiaf i ddyweyd, yw y ffaith. Y mae dydd y Beibl eto i ddod. Hyd yma y mae y Beibl wedi ei gamddeall yn fawr; y mae y lythyren wedi ei dyrchafu uwchlaw yr ysprydd; fel awdurdod wyddonol, y mae rhai dynion wedi ei ddyrchafu, ac eraill wedi ei fychanu; y mae dynion wedi troi ato fel pe at lyfr swyn-gyfarol er gochelyd y ffwdan o ddewis a phenderfynu drostynt eu hunain; y mae ei ddyweddiadau a'i ddigwyddiadau wedi eu hesbonio mewn dulliau a bair iddynt i olygu yr hyn ddewisir gan yr esbonwyr. Y mae'r Beibl wedi ei drin lawer yn rhy fynych fel pe yn lyfr o ystyr gyfriniol. Y mae'r dull hwn o drin y Beibl yn tynu tua'r terfyn, ac y mae dylanwad goreu y Beibl yn y dyfodol, ac nid yn y gorphenol. Pan y dysgwn ddarllen y Beibl yn syml a naturiol, gan ei gymeryd fel y mae, ac nid fel y tybiwn ni y dylai fod, enilla serch a pharch y galon ddynol fel na wnaeth erioed o'r blaen. Gan edrych fel y gwnaf ar y Beibl fel un o roddion goreu Duw i ddyn, pan y dysgir ei wir werthfawrogi, credaf y bydd ei ddylanwad ar fywyd dyn y fath ag i droi i'r cysgod ei orchestion gorphenol.

"*Y mae y llythyren yn lladd: yr ysprydd sydd yn bywhau.*" Dyna, mi gredaf, yr agoriad i'r defnydd a'r esboniadaeth iawn o'r Beibl. Yr ydym ni, pobl yr ugeinfed ganrif, wedi ein dwyn i fyny mewn arferion a galwedigaethau a dulliau o feddwl perthynol i wareiddiad tra gwahanol i'r gwareiddiad a ffynai yn yr adegau y daeth y Beibl i fodolaeth, yn hollol analluog i'w werthfawrogi, oddieithr ein bod wedi dysgu gwahaniaethu rhwng y ffurf a'r hanfod, rhwng yr amserol a'r arosol mewn crefydd ac mewn llenyddiaeth grefyddol. Ymlyniad dall wrth y lythyren sydd mor aml wedi arwain yr Eglwys i safleoedd nas gellir eu hamddiffyn. Y mae gwir awdurdod y Beibl wedi ei beryglu yn fawr trwy fod dynion wedi apelio at ei lythyren i brofi nas gallai fod bodau dynol yn byw yn yr ochr gyferbyniol i ni o'r belen ddaearol *(antipodes)*, ei bod yn anuwiol i gredu fod y ddaear yn myned o amgylch yr haul, fod daeareg yn wyddor dwyllodrus am ei bod yn dysgu nad gwaith chwe diwrnod oedd y cread ond gwaith oesau anirnadwy, fod gwrthwynebiad hyd yn oed i'r llywodraeth ddaearol mwyaf trawsarglwyddol yn cael ei wahardd i Gristionogion, fod Duw er ei ogoniant ei hun wedi danfon rhai dynion i'r byd oeddent wedi eu rhag-arfaethu i ddamnedigaeth dragywyddol. Y mae'r oll o'r camsyniadau hyn wedi tarddu o lynu wrth y ffurf neu'r lythyren ac anghofio'r hanfod neu'r ysprydd. "*Yr ysprydd yw yr hyn sydd yn bywhau: y cnawd nid yw yn llesau dim.*" Y mae ymlyniad wrth y lythyren wedi bod yn felldith i esboniadaeth Feiblaidd.

Ni ddylid, fodd bynag, anwybyddu'r lythyren. Fel y dywed Luther, "Nis gall geiriau'r Ysprydd Glân feddu rhagor nag un ystyr syml, yr hwn a alwn ni yn ystyr ysgrythyrol neu lythyrenol." Y mae ystyr yn yr hwn y mae talu sylw i'r lythyren yn un o ddyledswyddau blaenaf yr efrydydd Beiblaidd. Dylem fyned i'r Beibl i chwilio beth ddywedwyd gan yr ysgrifenwyr. Ein dyledswydd gyntaf

yw cael allan ystyr y geiriau a ddefnyddiasant hwy, a'r ystyr a feddent i'r rhai a'u clywsant gyntaf. Dylem ochelyd darllen y geiriau hyn yn ngoleu ein tybiau duwinyddol ni ein hunain.

Llythyrenoliaeth gamsyniol yw'r un a abertha'r synwyr ar allor sŵn; y fath lythyrenoliaeth ag a fyn ymlynu wrth y llythyren er gwaethaf pob rheol sydd yn agweddu'r defnydd o iaith. Y mae pob iaith ddynol, o angenrheidrwydd, yn amherffaith. Y mae miloedd o ddywediadau yn y Beibl, a llawer o eiddo Iesu, na fwriadwyd erioed iddynt gael eu deall yn llythyrenol; y rhai, pe deallid hwy felly, fyddent yn wrthwynebol i hanfod ei addysg.

Nid yw hyd yn oed y rhai a safant dros ymlyniad wrth y lythyren bob amser yn gyson yn eu haer-dybiau. Yn fynych, rhoddir i air mewn un cysylltiad ei ystyr lythyrenol, tra i'r un gair mewn cysylltiad arall y rhoddir ystyr allegol neu ffugiol. Yn yr ymadrodd, "*cospedigaeth dragywyddol,*" er engraifft, esbonir y gair tragywyddol fel yn golygu anherfynoldeb; ond yn yr ymadrodd, "bryniau tragywyddol," dywedir nad yw'r gair tragywyddol ond ffugr-ymadrodd. Yn yr adnod, "*pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw,*" esbonir *pawb* fel yn golygu pob bôd dynol; ond yn yr adnod, "*A minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun,*" esbonir *pawb*, nid fel yn golygu *pob bôd dynol*, ond *rhai*. Y mae miloedd a'n cyhuddant o fod yn inffideliaid pan y dywedwn mai chwedl neu aralleg yw'r hanes am gwymp dyn; ac eto, y mae'r un personau, heb un rheswm dros hyny, yn defnyddio'r un dull allegol i esbonio Caniad Solomon.

Yr hyn sydd eisiau yw gwneud defnydd o'r deall a synwyr cyffredin, meddu'r gallu i werthfawrogi terfynawd iaith ac argyhoeddiad fod y Beibl i'w ddarllen yn yr un modd a rhyw lyfr arall.

"*Y mae y lythyren yn lladd: yr ysprydd sydd yn bywhau.*" Rhaid defnyddio'r Beibl, nid fel llyfr o reolau, ond fel llyfr o egwyddorion. Y mae'r gwahaniaeth rhwng rheol ac egwyddor yn debyg i'r gwahaniaeth rhwng torth o fara a dyrnaid o hâd llafur. Y mae'r dorth yn fwy defnyddiol i'r newynog na'r hâd. Ond ar ol bwyta'r dorth, dyna derfyn arni. Etyb ddyben amserol, ond yfory bydd arno eisiau un arall. Ond y mae yn y dyrnaid hâd allu i gynyrchu bara am genedlaethau. Nid yw rheol ond dros amser, ond y mae egwyddor yn parhau. Ar gyfer amgylchiadau neillduol y mae rheol yn ddefnyddiol; cyfnewidier yr amgylchiadau, ni fydd y rheol yn ddefnyddiol mwyach. Ond y mae egwyddor yn cyfaddasu ei hun at bob math o amgylchiadau. Yn yr ymadrodd, "*Car dy gymydog fel ti dy hun,*" rhoddir mynegiad i egwyddor; ond y rheol, yn amser Iesu, oedd elusengarwch. Ystyrir elusengarwch heddyw, mewn llawer o achosion, yn niweidiol, ac nid yw'r hyn fu yn reol unwaith yn reol mwyach. Ond y mae'r egwyddor o "garu cymydog" yn aros. Y mae llawer o'r eglurebau ddefnyddir gan Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd yn feini tramgwydd i ddynion am eu bod yn eu deall fel gorchymynion parhaol. Ond y pethau hanfodol yw'r egwyddorion. Ein gwaith ni yw cymhwyso'r egwyddorion hyn at amgylchiadau ein dydd ni.

"*Y mae y lythyren yn lladd : yr yspryd sydd yn bywhau,*" hyny yw, awn i'r Beibl, nid er mwyn cael cyfarwyddiadau moesol yn unig, ond hefyd er cael cymhelliadau moesol; nid er cael cynllun sefydlog o ffydd, ond er cael ysprydoliaeth. Gellir cael rheolau moesol, o gyffelyb brydferthwch, mewn llyfrau eraill, megis yn eiddo Confucius a Seneca; ond ni cheir ynddynt gymhelliad moesol. Yn y Beibl, y peth cyntaf a dyn ein sylw yw, nid ei addysg foesol gyflawn, ond amrywiaeth, dyddordeb, a swyn, yr hanesion dynol geir ynddo. Yn ei ddynion a'i fenywod gwelwn y da yn ymdrechu yn erbyn y drwg, a deddf foesol uwch yn eu galw i fuddugoliaethau newydd. Y mae mewn hanes am ymdrech foesol mewn enaid dynol rywbeth sydd yn bywhau, yr hyn nas ceir mewn rheol foesol. Yr hyn sydd eisiau arnom ar daith bywyd yw, nid nifer o reolau moesol yn unig, ond y goleuni a'r cymhelliad a dardd o esiamplau ardderchog. Yr ydym am wybod beth mae eraill wedi wneud. Y mae y Beibl yn llawn o esiamplau gogoneddus—nid esiamplau i'w hefelychu yn llythyrenol, ond esiamplau a roddant i ni gymhelliad i ymdrechu fel yr ymdrechasant hwy. Cawn ynddo, yn enwedig, un esiampl heb ei chyffelyb—Iesu Grist. Yr oedd beirdd a phrophwydi, deddfroddwyr a Salmwyr, wedi gosod o flaen y ddynoliaeth mewn geiriau ddelfryd o'r Bywyd Perffaith. Yn Iesu Grist sylweddolwyd y ddelfryd hon. A than ddylanwad ei esiampl ef, galluogir ni i wneud a gorchfygu llawer o bethau na feddyliem am wneud yr ymgais oni bai am dano ef. Yr hyn a dderbyniwn oddiwrtho ef ydyw cymhelliad moesol.

Yn yr un modd awn i'r Beibl, nid i gael credo, ond i gael ysprydoliaeth. Os amcan y Beibl yw darparu credo barod, y mae yn syndod gymaint o wahaniaeth barn sydd yn nghylch beth yw y gredo. Pa mor lliosog yw'r duwinyddiaethau, y credoau, yr athrawiaethau, a ategir trwy ddyfynu adnodau o'r Beibl, heb gymeryd i ystyriaeth eu cysylltiadau. Camddefnydd o'r Beibl yw hyn. Na, nid profi athrawiaeth yw swydd y Beibl, ond cyffroi'r galon i weddi, i ddyhead, i ymdrech, i gydymdeimlad. Pan y darllenaf y fath ymadroddion a hyn, "*dy noddfa yw Duw tragywyddol, ac oddi tanodd y mae y breichiau tragywyddol*"; "*Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig; calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi*"; "*O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno*"; "*Duw cariad yw,*" fe'm cyfodir uwchlaw i'm bywyd arferol, teimlaf atdyniad y nefol uwchlaw y daearol, a chyffroir yn yr enaid deimlad o fywyd, o gariad, ac o heddwch sydd yn fwy gwerthfawr na'r holl gredoau. Fe'm tynir yn agos at Dduw gan wres ffydd fyw, yr hon ydyw ffynhonell ysprydoliaeth y bywyd crefyddol yn mhob man, a gallu ysgogol pob gwir gynydd.

DIWEDD.

PREGETH.*

GAN Y PARCH. JENKYN THOMAS, GLOSSOP.

"Onid oes deuddeg awr o'r dydd."—IOAN XI. 9.

Gallwn ddychmygu dyn yn byw mewn parc prydferth yn nghanol dyffryn tlws. Tyfa y coed a'r ffrwythau yn doreithiog oddiamgylch ei dŷ. Mae y ffyrdd yn cael eu hymylu gan flodeu, a'r llwybrau yn addurnedig gan y planhigion tecaf all medr gael i dyfu yn y wlad. Mae y tŷ yn gymharol fach ond wedi ei addurno yn ardderchog ac mewn chwaeth dda.

Mae perchenog yr oll yn falch o'i eiddo. Yn gymaint felly fel y mae fel y Pab yn Rhufain yn garcharor o fewn caerau ei dyddyn. Canfydda o'i dŷ y bryniau a'r mynyddau o'i amgylch. Gwel y tarth yn gorchuddio'r glenydd, a'r cymylau yn ysgubo yn war-drwm dros y mynyddau. Edmyga amlinelliad y cynteddoedd, y clogwyni a'r cilfachau. A phan mae'r eira yn gorchuddio'r mynyddau sylwa ar dduwch ac hagrwch y creigiau ysgythrog ddangosa eu hochrau moelion yn y pellder. Llama ei galon gan lawenydd pan mae bysedd anian yn planu prydferthwch ar lechweddau'r bryniau yn y gwanwyn.

Ond mae yr olygfa bob amser yr un fath, heb un amrywiaeth ond yr hyn gyfrenir gan orymdaith y tymhorau, a disgyniad lleni'r nos i bruddhau mawredd y dydd. Gwel ein tyddynwr y mynyddau a'r bryniau o'i dŷ a'i barc, ond nid yw fyth yn canfod safle ei gartref yn y dyffryn, oddiar ael y bryn neu o gopa y mynydd. Felly nid yw yn gweled ond un ochr ar bethau, a digon tebyg fod hyn yn wir yn mhob ystyr, ac nis gall ei syniad o fywyd a'i ddirgelwch fod yn syniad llawn ac effeithiol.

Mae G. K. Chesterton yn ysgrifenydd gwych ac yn feistr ar eiriau, ac ambell waith yn nhryflith llifeiriant y brawddegau canfyddwn rai gemau meddyliol. Gwelir pethau gan y mwyafrif o bobl yn union fel yr ymddangosant yn allanol. Rhodia pererinion daear o'r gadair i'r bedd. Ymgymerant a gwaith bywyd, gwleidyddiaeth a chrefydd heb wahaniaeth yn eu harddull, eu hosgo na'u brwdfrydedd. Dim ond yr agwedd allanol welir.

Ceisia Chesterton wrthdroi gwrthrychau er mwyn canfod ystyr fewnol pethau, neu er mwyn cael golwg newydd ar fyd. Pan yn blentyn sylwodd Ruskin fod blodau afalau yn yr ardd yn cymeryd gwedd newydd pan oedd ef ar ei gefn yn edrych arnynt rhyngddo a'r awyr las.

Mae Chesterton yn ceisio cael cipolwg ar ddynion a drychfeddyliau, sefydliadau a symudiadau o safbwynt newydd trwy sefyll ar ei ben i edrych arnynt, neu trwy eu dal i fyny rhyngddo a'r nefoedd, neu feallai, ambell waith trwy eu dal rhyngddo ag uffern er mwyn eu canfod mewn goleuni newydd. Ei amcan yw rhodio oddiamgylch pob bôd a gwrthrych a drychfeddwl er mwyn gweled yr oll o honynt yn mhob gwedd,—a goleu'r nefoedd arnynt, a rhith oleu anwiredd yn eu cyffwrdd neu dywyllwch y caddug yn eu gordoi.

Dywed Browning fod y prydydd pan yn ddeg a thriugain oed yn canfod pethau fel y mwyafrif yn llwyd a

---

* Traddodwyd yn Nghyfarfodydd Blynyddol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yn Mwlchyfadfa, Mehefin 27, 1912.

llwm, wedi eu hamddifadu o ogoniant gemawl y cynfyd â goleuni tyner a'i gorchuddiai pan oedd ef yn moreu oes.

Dim ond blodyn yw blodyn 'nawr,
Dyn, deryn a bwystfil yn ddim
Ond eu hunain, heb oleu'r wawr
Fel cynt, ar ddechreu bywyd chwim
Yn gogoneddu'r llawr.

Ond er fod rhai o'n cyfoedion yn ceisio gweled pethau mewn gwedd newydd, nis gellwch fyth roddi golwg mwy gwrthwynebus i'r mwyafiif o bobl na pheri iddynt wthio oddiamgylch eu hen gartrefi meddyliol a chrefyddol. Boddlon ydynt ar yr hen gartref pe nad yw ond magwyren lwyd. Peidiwch ceisio ganddynt adael eu tŷ a'u parc i ddringo mynyddoedd blaenfynediad lle mae ystormydd meddyliol yn chwythu yn arw a throellog, a meddylddrychau newydd yn hofran fel tân-belenau yn yr awyr. Mae perygl bywyd yn y fath daith.

Ond mae y dynion doeth erioed wedi crwydro oddiamgylch yr hen gartref. Sylwant arno o bob cyfeiriad. Dringant y mynydd i edrych lawr arno. Disgynant i'r dyfnder er edrych fyny arno. Curant ei ochrau a'i barwydydd er gweled a ydyw ei seiliau ar y graig. Teithiant i belderoedd byd a'i syniadau er mwyn ei weled trwy oleu amser a chysgodau'r blynyddau. Teimlant mae dyma'r unig ffordd i ganfod pethau yn y goleuni.

Ond paham gall fod unrhyw wrthwynebiad gan bobl i fyfyrio er mwyn myfyrio, ac fel ffrwyth myfyrdod a dadguddiad fabwysiadu syniadau mwy coeth, a meithrin ysbryd mwy brawdol, yspryd sydd fwy cydweddol a chalon y Crist. Rhodda Bergson yr atebiad canlynol :—"Mae dyn yn myfyrio er mwyn gweithredu. Mae deall wedi ei lunio ar ddelw gweithred."

Fel engraifft, os bydd dyn eisiau adeiladu tŷ, ceisia am feistr-adeiladydd cywrain i dynu y cynllun, gofala fod y defnyddiau yn dda, gosoda y seiliau ar y graig. Holl amcan y cynllun yw gweithredu. Os bydd yr amaethwr am gnydau da allan o'i dir gofala am driniaeth dda i'r ddaear, cylchdro iawn i'r cnydau, hau yn yr amser iawn, medi pan mae'r grawn yn addfed, a phob mesur fydd yn cyfranu tuag at lwyddiant yr amcan mewn golwg.

Y canlyniad yw fod holl gynlluniau ein bywyd, holl beirianwaith y rheswm a'r deall yn rhedeg ar hyd llinellau defnyddioldeb, a'r hyn dâl i ni am ein trafferth mewn ystyr fydol.

Pan geisir genym i olrhain gogoniant y Crewr yn mhrydferthwch y ddaear, a'i ddoethineb yn nyfnderoedd y môr ; pan ofynir i mi ddarllen ei feddyliau yn amlder a chyfoethogrwydd bywyd hyd yn oed mewn cilfachau'r byd ; pan ddisgwylir arnom ddeall y modd y mae yspryd y Duw Byw yn gweithredu yn y natur ddynol, a deall ansawdd y rhwymyn gylyma ddynion wrth eu gilydd fel bodau cymdeithasol, a'r lle a leinw dyn yn y cynllun Dwyfol, yna cawn ein bod yn colli dyddordeb. Mae myfyrio yn graffus ar ddirgelwch bod a byw yn fath o ameuthyn, tra mae gwaith yn angenrheidiol er cadw bywyd yn y corff

Ond nid ydyw dyn yn dechreu enill ei ryddid nes penderfynu myfyrio ar darddiad ac ystyr bywyd, nes dringa fyny at sylweddau ysprydol. Ac o herwydd fod gwirioneddau ysprydol yn gofyn i ni fyfyrio ar hyd llinellau newydd, ac o ganlyniad i fyw bywydau newydd—bywydau mwy cydnaws a'r gwir—y pur, ac arucheledd bodolaeth, dyna y rheswm fod cymaint o wrthwynebiad gan ddyn i fyfyrio yn feddylgar ar ddirgelwch a doethineb y cread a'r Crewr.

Dim amser, nac awydd ar ol enill ein bara beunyddiol i ymdrin a phethau cudd y meddwl a'r enaid. Dyna'r ymddiheurad wneir am bob esgeulusdra i feithryn y deall a'r yspryd. Mae amser genym i dreulio yn rhigl er enill bara i'r corff, ond dim amser i feithrin yr enaid anfarwol !

Onid oes deuddeg awr o'r dydd yn cael eu rhoddi i ni er mwyn canfod goleuni y byd? Neu os cyfrifwn fel y gwna deiliaid yr oes hon, onid oes pedair awr ar hugain o'r dydd? Pa ddefnydd wnawn o'r pedair awr ar hugain?

Er mwyn i ni gael cipdrem iawn ar y pwnc, sylwn am funyd ar natur yr hyn alwn ni yn "Amser." Beth yw amser yn ei ansawdd? Gwyddom fod diwrnod yn parhau cyhyd ag y mae y ddaear yn troi unwaith ar ei phegynau. Mae parhad blwyddyn yn ymddibynu ar y wibdaith wna'r ddaear yn ei chylchdro trwy'r eangderau wrth ddilyn yr haul.

Ond yn ein dychymyg o bethau, mae Amser a Thragwyddotdeb yn ansoddau cyferbyniedig. Mae Tragwyddoldeb yn rhywbeth dwfn, diwaelod, di-derfyn, heb ddechreu ac heb ddiwedd, heb lanau na therfynau mewn un cyfeiriad, nac un cyfnewidiad yn ymdori ar yr heddwch didrai.

Mae ein syniad am amser yn wahanol iawn. Mae Bergson (yn ei *Creative Evolution*) yn cymharu amser i orymdaith y mynudau a'r blynyddau. Mae fel afon redegog sydd yn dyfod ac yn myned. Mae parhad (duration) fel y llifddyfroedd sydd yn toni yn y blaen, ac wrth ymdoni yn cyfnewid. Mae mynudau newydd yn cael eu geni a'u cipio ymaith. Mae eiliadau newydd yn llwythog gan dynged yn gwibio heibio o hyd. Ac eto nid yw y mynudau yn wahanedig heblaw yn ein syniad ni o bethau. Allan o'r ystordy tragwyddol y tarddant yn orymdaith gyflym a grymus, ac maent wedi eu huno a'u gilydd, ac yn dal perthynas a'u gilydd er mor wahanol a gwahanedig.

Mewn afon redegog mae parhad a chyfnewidiad. Mae'r afon yn parhau yr un, ond mae'r dwfr yn cyfnewid. Mae Amser yn ffrwd o'r fath yna—mae parhad a chyfnewidiad. Mae y mynudau yn newid o hyd ond mae yna barhad. Canys mae bywyd yn nofio ar fynudau newyddion a moroedd newyddion ac yn cario y gorphenol ganddo. Mae y gorphenol yn parhau yn y presenol.

Ond nid yw y dyfodol yn y presenol. Ambell waith dywedwn ni ein bod yn cario beichiau'r dyfodol. Allwn ni ddim gwneud hyny. Nis gallwn fyw yn y dyfodol. Yn y presenol yn unig y gallwn fyw. Allwn ni ddim gwario un funyd, un eiliad o'r dyfodol. Mae'r oll o'r dyfodol yn eiddo i ni—pob dydd, pob awr, pob munyd, pob eiliad, ein trysor ni ydyw.

Beth yw Amser yn ei ansawdd? Wel anhawdd yw dyweyd. Weithiau dywed y Sais—"Time is money." Wel mae yn llawer mwy na hyny. Ymddengys mai Amser yw y defnydd allan o'r hwn yr adeiladwn ni ein bywydau. Dywed Bergson fod Amser yn sail bodolaeth, gwir sylwedd y byd yn yr hwn yr ydym yn byw.

Yn eich cartref fe allai fod ystafell heb ei dodrefnu. Ac yr ydych yn ei galw yn *room* wag. 'D oes dim byd ynddi. Dim byd ynddi! Oes, mae awyr ynddi, mae tyniad disgyrchiant yn pasio drwyddi. Mae miliynau o fflachiadau tònau goleuni, rhai o honynt welir yn lliwiau'r enfys, a'r rhai gyfansodda y goleuni gwyn, yn gwibio yn ddibaid trwy'r ystafell o foreu i hwyr. Mae rhywbeth yn yr ystafell, ond nid oes ynddi ddodrefn defnyddiol wna gartref clyd. Canys nis gallwn orphwys ar yr awyr, na hongian ein trysorau ar liwiau'r enfys, na rhoddi pwys ein penau ar y gwagle.

Rhywbeth tebyg allwn ddyweyd am ddiwrnod. Mae yn cael ei roddi i ni yn wag. Gofyna Iesu, "Onid oes deuddeg awr o'r dydd? Onid oes pedair awr ar hugain o'r dydd?" Oes. Ond mae y pedair awr ar hugain yn wagle i'r hwn y gallwn ni bentyru bywyd.

Nid yw diwrnod ond y cyfleustra, yr ystafell wag ddysgwylir arnom ni ei dodrefnu, ac mae bywyd yn cael ei wneud fyny o lanw gwagle—("Life consists of filling voids.") Ac mae bywyd yn dyfod yn rhywbeth sylweddol pan yr ydym yn ceisio llanw y pedair awr ar hugain â gwaith da, myfyrdod dwys, amcanion cywir, gorchestion gwych, ac ymdrechion

gonest. Amser mewn un ystyr yw y gwagle, y cyfleustra gwag ddysgwylir arnom ni i'w lanw, ac mae bywyd yn dyfod yn sylwedd pan mae amser yn cael ei lanw, yn cael ei bentyru gan fyfyrdod a gwaith.

Mae rhai o honoch wedi darllen llyfr bychan Arnold Bennett yn dwyn y teitl,—"How to live on 24 hours a day." Mae yn y llyfr achwyniad ac awgrym. Yr achwyniad yw mai ychydig iawn sydd yn byw bywydau llawn, ac yn gweithio a'u holl egni trwy unrhyw ran o'r dydd. Cychwynwn yn aml yn y boreu heb awydd am waith na llawenydd yn ein syniad o hono, a phan mae'r gorchwyl diosodd dianga ochenaid o foddhad o'n mynwes. Y canlyniad yw nad yw y gwaith a wnawn y goreu posibl, ac nid oes gwir ddyddanwch mewn byw o dan y telerau hyn. Os bydd dyn wedi ei lyncu fyny yn ei waith, a'i feddwl a'i galon ynddo, mae gwaith yn bleser, a'r dyn yn fyw ac mewn cyffyrddiad â'r sylwedd anfeidrol. Mae yn llanw y gwagle. Mae yn dodrefnu yr ystafell wag. Mae Arnold Bennet am i ni lanw yr oriau hamddenol yn y dydd â myfyrdodau aruchel, ac o ganlyniad â byw.

Mae Thoreau wedi ysgrifenu fel hyn yn *Walden*:—"Mae y miliynau yn effro ddigon er gweithio â'r corff, ond dim ond un mewn miliwn sydd yn ddigon effro i ymdrechu â'r deall, a dim ond un mewn can' miliwn sydd yn ddigon effro i fyw bywyd awenyddol neu ddwyfol"

Mae Arnold Bennett am i ni wneud defnydd priodol o'r meddwl a'r deall. Ceisia genym yfed i fewn syniadau aruchel y seintiau, y beirdd, yr athronwyr. Siarada yn uchel am weithiau Marcus Aurelius. Dylai rhain fod yn gymdeithion beunyddiol i ni, a chynghora'r byd i besgi'n feddyliol ar fyfyrdodau Pascal. Mae y gallu genym i reoli ein meddwl a holl beirianwaith y meddwl a'r deall, a holl alluoedd yr enaid. Eiddom ni ydynt. A dylem yn yr oriau hamddenol sydd ar ein dwylaw i orfodi ein pwerau i symud yn nghanol myfyrdodau aruchel, a syniadau cain. Pentyrwch fywyd i'r pedair awr ar hugain. Llanwch y gwagle-amser â sylwedd. Dodrefnwch yr ystafell wag.

Mae gwir Gristionogaeth yn sicr o wneud i ni fyfyrio ar hyd llinellau newydd. Mae yspryd y peth hyn mewn Cristnogaeth. Ac mae bywyd bob amser yn tueddu i greu sefyllfaoedd newydd, meddylddrychau newydd, a dull newydd o fyw, dull fe allai fydd yn wrthwynebus i ni oherwydd ein nwydau a'n harferion gwael.

Fel enwad gorfu i ni yn y gorphenol frwydro dros ryddid meddyliol a chrefyddol. Ac mewn llawer ardal fel hon mae cof melus am arwyr y ffydd fu yn milwrio dros grefydd rydd.

Heddyw mae cais yn cael ei wneud am i ni eto i fyfyrio mewn dull newydd ar y berthynas fodola rhyngom a'n Crewr; ar y cwlwm a'n rhwyma wrth ein gilydd fel bodau dynol; ar y gyfeillach ddylai fodoli rhwng y bobl sydd yn adeiladu y Jerusalem newydd, y ddinas sydd a'i seiliau yn y tragwyddolfyd, a'i chaerau yn agored i bedwar ban y nefoedd. Cartref ysprydol yw y ddinas sanctaidd hon. Mae yn fwy sylweddol na phreswylfeydd deall a phalasau rheswm. Mae deall a rheswm yn ffurfio rhan o'i chynteddau, ond mae ei chalon yn yspryd byw ac anfarwol. O galon hon y dylifa allan gariad brawdol, cydymdeimlad trylwyraf â phob enaid sydd yn teithio i gyfeiriad y perffaith a'r pur.

Mae bywyd yn anhraethol fwy na'r deall na'r rheswm. Cynyrch bywyd, neu un o effeithiau bywyd yw y deall a'r rheswm. Felly dylai crefydd fod mor eang a bywyd, mor gyfoethog fel y gall apelio at holl nodweddau bywyd. Mae bywyd yn ddirgelwch anesboniadwy, ond gwelwn fod yn gynhwysedig ynddo yr enaid, y meddwl, yr yspryd, a'r egni bywiol dreigla o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb ar draws yr holl bersonau ffurfia yr hil ddynol.

Onid oes pedair awr ar hugain o'r dydd wedi eu rhoddi i ni er mwyn i ni ganfod y goleuni? Llanwch yr oriau â bywyd aruchel. Rhaid yw i

fywyd dyfu. Tueddiad at gynyddu yw bywyd. Ac mae yn dibynu arnom pa fath dyfiant gaiff bywyd o dan ein gofal. Bywyd pur, bywyd llawn, bywyd sanctaidd, bywyd cymwynasgar, bywyd sobr, bywyd anhunanol, bywyd egniol, bywyd defnyddiol, bywyd uchelfrydig, bywyd y Crist. Dyna y fath fywyd sydd yn agored i ni oll. Mae y gallu yn ein dwylaw i wneud bywyd yr hyn a hoffwn iddo fod.

Llanwch y gwagle — Amser — â bywyd. Dodrefnwch yr ystafell wâg.

CREFYDD A GWYBODAETH.

GAN SYLWEDYDD.

Fel athraw, rhan o'm neges mewn bywyd yw dysgu'r gelfyddyd o feddwl; ac yr wyf yn apelio am gydymdeimlad y meddylgar wrth ymdrin â'r testyn sydd gennyf i draethu arno. Po fwyaf wyddom, mwyaf oll y dylem gydymdeimlo. 'Gwybod y cwbl yw maddeu'r cwbl,' medd un athronydd. Byddwn yn eang ein meddwl, ac yn llydan ein cydymdeimlad, ynte ; byddwn hefyd yn hyderus, oblegid mae'r Duw yr ŷm yn gredu ynddo yn gwybod y cwbl — a phwy eill faddeu fel Efe ?

Meddyliwn yn gyntaf

BETH YW HANFOD CREFYDD ?

Ai bod yn perthyn i'r Enwad Annibynnol Cymreig ? Nage. Yr ydym yn rhy eang ein meddyliau i dybio hynny. Ai bod yn Anghydffurfiwr, ac nid yn Eglwyswr ? Nage. Ai bod yn Brotestant, ac nid yn Babydd ? Anodd credu hynny. Ai bod yn perthyn i enwad Cristionogol, ac nid i Fahometaniaeth neu i ddilynwyr Buddah, Confucius, neu athrawon mawr y paganiaid ? Anodd haeru hynny hyd yn oed. Cofiwn mai Duw yw'r mwyaf eang Ei feddwl o holl fodau'r cread, ac felly Efe sydd fwyaf eang Ei gydymdeimlad.

Ai byw yn foesol yw hanfod crefydd ? Mae moesoldeb yn tarddu o ddeddfau dynol, ac yn cyfnewid gyda'r deddfau hynny. Mae'r hyn a ystyrid yn foesol yn nyddiau'r patriarchiaid yn aml yn anfoesol i'r eithaf heddyw. Mae dyn crefyddol, fel rheol, yn ufuddhau deddfau gonestrwydd ac eraill o gyfreithiau moesoldeb ; ond nid dilyn y deddfau hyn yw ei grefydd. Gall y *Socialist* gredu yn onest mai peth anfoesol yw casglu cyfoeth (ar gost eraill) ; dichon fod gwr y cyfalaf yn gonest gredu i'r gwrthwyneb — dichon hyd yn oed farnu fod y *Socialist* yn lleidr. Maes opiniynau dynol yw hwn, ac nid maes crefydd.

Ai myned i le o addoliad yn rheolaidd yw crefydd ? Gan fod dyn yn fôd cymdeithasol, mae cynnull gyda'i gyd-ddyn yn help mawr iddo ; ond nid myned i'r capel yw hanfod crefydd. Mewn geiriau eraill, nid yw myned i'r capel yn rheolaidd yn ddigon o grefydd. Nid yw gweithredoedd da chwaith yn ffurfio crefydd; geill 'gweithredoedd da' weithiau ddeilliaw o amcanion drwg.

Nis gwn am well disgrifiad o *hanfod* crefydd na hyn :

'DAL CYMUNDEB A'R UCHAF Y GWYDDOM AM DANO.'

Y mae'r disgrifiad hwn yn un y gellir ei gymhwyso at y barbariad cibddall yn syrthio o flaen y boncyff garw ; at yr hen wraig yn darllen ei Beibl yng ngoleu canwyll frwyn ; at yr athronydd ar dân sanctaidd yn ei

ymchwil am wirionedd; at y cyfriniwr (*mystic*) yn ymgyfathrachu â phwerau'r anweledig; at yr henwr yn y capel gwledig; at yr esgob ar ei liniau ar allor yr eglwys fawr gadeiriol; at Arabiaid gwyllt y gwastadedd yn lledu eu carped ar y tywod, ac yn penlinio a'u gwynebau at le genedigol proffwyd Islam; ac at Iesu yn treulio'r nos i weddïo ar y mynydd.

Yr wyf yn sicr eich bod i gyd yn ddigon eang o feddwl a chydymdeimlad i addef nas gall fod llawer allan o le ym mywyd y dyn sydd beunydd '*yn ceisio dal cymundeb a'r uchaf y gwyr am dano.*' Nis gallwn ddychmygu y gall fod dim ym muchedd y dyn hwnnw y gellir ei gosbi am dano.

Gwelwn erbyn hyn fel mae'r elfen o wybodaeth yn gysylltiedig â chrefydd—cymundeb â'r *uchaf y gwyddom* am dano. Fel yr ehanga ein gwybodaeth, mae'r uchaf y gwyddom am dano yn myned yn uwch, uwch o hyd. Duw'r llid a'r digofaint, Duw'r taranau a'r mellt yw Duw yr Hen Destament. Duw ein Tad yw Duw'r Testament Newydd — Duw Cariad yw. Dyna'r syniad uchaf y gall Cristion gyraedd ato; a dal cymundeb â Duw cariad yw crefydd y Cristion—cymundeb drwy Grist.

Fel yr ehanga ein gwybodaeth eto, daw ein syniadau am Dduw yn llydanach, llydanach o hyd.

NID DUW SYDD YN NEWID,

ond ein meddyliau ni sydd yn ymagor. Mae gwybodaeth dyn yn myned ar gynnydd drwy ei oes—mae ei feddwl yn datblygu o hyd. Yr un fath y mae gwybodaeth dynoliaeth yn myned ar gynnydd o hyd; ac y mae gwybodaeth heddyw, yn ddiameu, yn ehangach nag y bu erioed yn hanes y byd. Mae llawer o wybodaeth wedi ei chael ac wedi myned ar goll. Yn ddiameu yr ydym wedi colli llawer o oleuni gwareiddiad yr Aipht ac Assyria. Nid oes sicrwydd hyd heddyw pa bwerau fu'n adeiladu'r Pyramidiau ar lannau'r Nilus; ac nid oes neb heddyw a ŵyr, er enghraifft, sut y gwneid gwydr ystwyth (*pliable glass*) yn y Dwyrain gynt. Ond ar y cyfan, i fyny mae gwybodaeth wedi myn'd, ac yn y canrifoedd diweddaf hyn mae wedi gwneud cynnydd anferth. Efallai y bydd yn ddyddorol i rai ohonoch gofio mai oddiar yr unfed ganrif ar bymtheg mae gwybodaeth ddiweddar am y byd ac am y greadigaeth wedi cymeryd camrau mor freision yn y blaen. Ac i Sais yr ydym yn ddyledus am hynny; gwyddoch oll am enw Francis Bacon. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am y dull newydd o chwilio am wybodaeth—y dull arbrofiadol: gwneud *profion* parhaus er mwyn gweled y canlyniadau, a sylwi yn fanwl a dyfal ar y canlyniadau hynny.

Gwyddoch oll am y modd y darganfyddodd ac y dyfeisiodd Stephenson yr agerbeiriant—drwy sylwi ar y dwr yn codi clawr y tegell ar y tân.

Drwy sylwi ar afal yn syrthio i'r ddaear y darganfyddodd Newton ddeddf disgyrchiad—hynny yw, fod y ddaear yn tynnu popeth ati ei hun. Ar ol hynny cymhwysodd y ddeddf at y ser a'r planedau; ac erbyn heddyw mae'r morwr yn cyfrif ei safle wrth y ser, mae'r dysgedig yn cyfrif i'r funyd amser diffyg yr haul a'r lleuad, ac y mae'r gwyddonwyr yn pwyso bydoedd ac yn mesur pellterau ser anweledig i'r llygad.

Wrth sylwi ar glun llyffant yn cael ei hysgogi ar wifren y gwnaeth Galvani ddarganfod rhai o ddeddfau mwyaf cyfrin trydaniaeth; ac erbyn heddyw y mae'r wybodaeth honno wedi cynhyddu, fel y mae dyn wedi ffrwyno'r rhaeadr a'r fellten i'w ewyllys, a chyfleu ei feddwl i'w gyd-ddyn ar draws yr ehangderau mudion.

Mae'r wybodaeth hon wedi helpu dyn yn ddirfawr i orchfygu anhawsterau ei amgylchoedd, ac wedi sicrhau goruchafiaeth meddwl ar fater; ond mae ei wybodaeth wedi effeithio yn anferthol ar farn dyn am y greadigaeth. P'un fwyaf chwilia i mewn i natur y byd o'i gylch, mwyaf oll y gwêl fod y cyfan i gyd yn myn'd wrth ddeddf.

Yr un ddeddf sydd yn rheoli cerdd-ediad dyn a symudiad dringlyn yr awrlais ; yr un elfennau sydd yn y ddaear ac yn y seren draw yn y pell-terau tuhwnt i amgyffred dyn ; yr un rheolau sydd yn gweithio ar dywod y môr ac ar filiwn heuliau Llwybr Llaethog ; a'r un ddeddf sydd yn cyrchu'r diferyn dwfr i'r llawr ag sydd yn cadw y ddaear yn ei llwybr oddi-amgylch yr haul.

Cred y barbariad mai yspryd sydd yn peri i'r gwynt ruo, ac i donnau'r môr gynhyrfu ; mai yspryd sydd yn peri i'r afon redeg, ac i'r tân gynneu yn fflamau difäol. Credai dysgawd-wyr y Canol Oesoedd mai y byd oedd canolbwynt y greadigaeth, ac mai Duw yn uniongyrchol oedd yn rheoli pob peth. Ond er amser Bacon mae syniad newydd am y greadigaeth wedi ymddangos—y syniad o fyd-ysawd yn gweithio drwy ddeddfau di-droi-yn-ol. Aed i edrych ar y cread fel rhyw beiriant enfawr yn gweithio wrth ddeddfau, ac aeth rhai mor bell a haeru fod hynny'n ddigon i egluro pob peth ; am hynny, oes anghrediniol oedd y ddeunawfed ganrif, pan oedd y syniadau hyn yn eu cyflawn fri. Ac hyd y dydd heddyw mae y syniadau hyn wedi gadael ôl ddirfawr ar feddyliau mwyaf goleuedig y byd.

Ond drwy anhawsterau mae dynol-iaeth yn cynhyddu'n barhaus. Syrthio i godi mae o hyd, a'r awr dywyllaf yn aml yw'r awr cyn toriad dydd. Mae goleuni newydd a thanbaid o hyd yn dallu'r llygaid am yspaid, ond buan iawn daw i weled eto mor eglur ag o'r blaen.

Yn y ddeunawfed ganrif deuwyd i weled yn eglur nad oedd y ddaear ond

LLWCHYN BYCHAN YN Y GREAD-IGAETH,

a'i safle ymysg y bydoedd megis un ddeilen yn y goedwig, neu un tywod-yn ar y traeth. Cynhyrfodd hyn rai o grefyddwyr yr oes, y rhai a haerent fod hyn yn groes i ddysgeidiaeth y Beibl, gan anghofio mai Llyfr wedi ei ysgrifennu gan ddynion, ac wedi ei gyfieithu gan eu cyd-wladwyr oedd y Beibl, ac mai gwirioneddau yspryd-ol a ddysgid ynddo yn hytrach na ffeithiau anianyddol. Anghofiasant mai llenyddiaeth yspryd oledig yw'r Beibl, yn siarad iaith y bardd a'r proffwyd a'r sant, ac nid iaith yr athronydd a'r gwyddonwr. Erbyn hyn credwn mai *drwy* ei ddeddfau mae Duw yn gweithio yn Ei greadig-aeth, a gwelwn fod y bydysawd yn fil rhyfeddach ac ardderchocach nag y tybiodd yr hynafiaid erioed. Ac yn raddol mae dynion yn dod i weled mai *drwy* ddwylaw dynol mae y Beibl wedi dyfod i fodolaeth : siarad yn iaith dynoliaeth yr oes y mae. Nid cyfleu gwybodaeth eglur a pher-ffaith am y greadigaeth yw ei amcan, ond defnyddio adnoddau'r meddwl dynol er mwyn cyfleu gwirioneddau yspryd ol. Siarad yn iaith y bobl o hyd mae'r Beibl, ac nid yn iaith angel na iaith yr athronydd. Nid wyf yn gweld fod gronyn o bwys yn y cwestiwn, Pa un a yw Llyfr Genesis yn hanes perffaith o'r cread neu beidio ? Nid ymchwil dyn am wyb-odaeth o'r cread sydd yn bwysig yn y Beibl, ond

EI YMCHWIL AM DDUW.

(*I w barhau.*)

ODDIAR Y TWR.

Erthygl ddyddorol ac amserol, nodedig hefyd ar gyfrif amryw resymau, ydyw eiddo'r Parch. Teowyn Evans yn y *Geninen* am Ebrill. Nid ydyw, efallai, o natur feiddgar iawn—er, a chymeryd pob peth i ystyriaeth, y mae ynddi ronyn o feiddgarwch. Nid oes ynddi, ychwaith, ddim sydd newydd, yn enwedig i rai ydynt gyd-nabyddus â llenyddiaeth Feiblaidd

ddiweddar. Yn hytrach, y mae llawer o'r hyn y dadleua'r awdwr drosto, bellach, yn dwyn arwyddion henaint ; yn enwedig felly i rai nad ydynt wedi eu rhwystro gan ddallni a rhagfarn rhag dilyn y goleuni gwell a'r wybodaeth gywirach ar bynciau Beiblaidd ag y mae llafur dynion dysgedig wedi ddwyn i'n meddiant. Yr hyn sydd wedi peri syndod i ni ydyw—fod erthygl a ddadleua dros roddi ystyriaeth mwy diragfarn a derbyniad mwy croesawgar i'r syniadau newydd wedi ei hysgrifenu gan weinidog Wesleyaidd, ac wedi ymddangos ar dudalenau cyhoeddiad sydd a'i gylchrediad yn benaf yn mhlith rhai o syniadau uniongred. Ac o'r ddwy ffaith hyn, efallai mai yr olaf a bair y syndod mwyaf. I ni, un o arwyddion calonogol yr amserau yw hyn. Fel y mae ymddangosiad cyntaf y wenol yn y gwanwyn yn arwydd fod tywydd teg yr haf yn agoshau, felly y mae hyn yn un o'r arwyddion fod dyddiau iawnffyddiaeth gul, ragfarnllyd, ddigynydd, yn raddol yn dirwyn i'r terfyn. Ar

Arwyddion yr Amserau yn Nghymru

yr ysgrifena yr awdwr parchedig. Ystyria rai o'r arwyddion hyn yn ffafriol, ereill yn anfafriol, i dyfiant ein cenedl. Yn yr arwyddion anffafriol y mae peryglon, y rhai os na ddeifir hwynt yn yr eginyn, a allant arwain ein cenedl i ddirywiad. Y mae peryglon, yn y lle cyntaf, yn nglyn â'r wybodaeth newydd am y Beibl. Dadleua dros ddwyn y wybodaeth hon i sylw plant a phobl ieuainc ein Hysgolion Sul. Trwy wneud hyn, osgoid o leiaf ddau berygl—y perygl sydd yn nglyn â'r syniad am y Beibl fel llyfr perffaith, pob rhan o'r hwn sydd gyfwerth ; a'r perygl a gyfyd o wybodaeth amherffaith, garpiog, o'r olwg newydd ar y Beibl. Y mae ymlyniad cyndyn wrth yr olwg cyntaf ar y Beibl, yn ddiameu, yn gyfrifol am lawer o'r difaterwch mewn perthynas iddo ar du'r genhedlaeth sydd yn codi ; tra y mae'r wybodaeth amherffaith am yr olwg newydd arno yn arwain i ymgais i'w fychanu, ac felly i'w ddi-orseddu fel y llyfr goreu, mwyaf gwerthfawr, a'i ddefnyddio yn iawn, fel cyfrwng o addysg foesol ac ysprydol. Y mae angen taenu'r wybodaeth newydd, felly, fel ag i osgoi'r peryglon hyn. Ac y mae erthyglau o fath yr un y cyfeiriwyd ati yn gyfryngau effeithiol i barodi meddyliau dynion i'w derbyn. O erthygl mewn cyhoeddiad Cymreig i

Anerchiad Llywydd yr Undeb Cynulleidfaol

(yn Anibynwyr) Saesneg sydd gam hir ; ac ar un olwg, efallai ymddengys yn gam rhwng dau beth hollol ddigysylltiad â'u gilydd. Nid ydynt felly, fodd bynag, fel y cawn weled cyn terfynu. Testyn yr araeth oedd—"Y ffordd ragorach," a'i meddwl canolog oedd—dangos ffolineb pob ymgais i orfodi dynion i feddwl mewn un ffordd neillduol, a dirgymell y ddyledswydd o amddiffyn rhyddid mewn pethau crefyddol. Eleni dethlir dau can mlwyddiant a haner o basiad Deddf Unffurfiaeth 1662. Y ffaith hon, yn ddiau, awgrymodd i'r Llywydd (y Prifathraw, y Dr. Adeney) ei destyn. Beth oedd dyben y Ddeddf uchod ? Gorfodi pob offeiriad i gydffurfio a chydsynied â'r oll o gynwys y Llyfr Gweddi Gyffredin, i gael eu hordeinio gan esgob, ac i gymeryd llŵ fod pob gwrthwynebiad i'r brenin yn anghyfreithlawn. Arweiniodd hyn i'r hyn a elwir yn gyffredin yn

Droad Allan y Ddwy Fil.

Er y gelwir y nifer yn ddwy fil, eto nid oes sicrwydd yn nghylch hyn—amrywia barnau haneswyr ar y mater—o'r wyth cant i'r ddwy fil. Tua'r un adeg pasiwyd amryw ddeddfau ereill gyda'r amcan o wneud pob rhyddid mewn pethau crefyddol yn amhosibl. Arweiniodd hyn i erledigaeth greulawn. Pa mor greulawn ydoedd a wneir yn amlwg gan

y ffaith fod oddeutu wyth mil wedi marw mewn carcharau yn ystod brenhiniaeth Charles yr ail. Y fath fethiant fu'r deddlau uchod (Deddf Unffurfiaeth ac ereill) a wneir yn amlwg gan hanes y ddau can' mlyneyd dilynol. Gyda throad allan y Ddwy Fil,

DAETH ANGHYDFFURFIAETH I FODOLAETH ;

ac erbyn hyn, y mae'r planhigyn gwan, a blanwyd dan amgylchiadau mor anffafriol, wedi tyfu yn bren mawr. Y mae Anghydffurfiaeth, heddyw, yn gwneud i fyny fwy na haner bywyd crefyddol Prydain. Gyda phriodoldeb, felly, y dywed Dr. Adeney fod y syniad o unffurfiaeth yn fethiant. Er fod yr Eglwys Wladol wedi gwneud ei goreu dros y syniad, y mae wedi methu carcharu tu fewn i'w muriau credoawl ond cyfran fechan o'r boblogaeth. Gwir y parha i fwynhau safle ragorfreintiol mewn llawer cyfeiriad. Ac y mae yn hen bryd ei hamddifadu o'r safle hon, a sefydlu perffaith ryddid crefyddol. Cydraddoldeb wedi ei sylfaenu ar ryddid, ac nid goddefgarwch, ydyw'r ddelfryd. A ydyw'r flwyddyn bresenol i fod yn dyst o sylweddoliad y ddelfryd hon yn Nghymru? Ni gawn weled. Y mae pob ymgais i sicrhau unffurfiaeth wedi troi allan yn fethiant, fel yr haeddent. Ac nid yw'r methiantau hyn heb eu gwers. A'r wers yw hyn—

BOD FFORDD RAGORACH NA FFORDD UNFFURFIAETH.

Beth yw hon? Ffordd rhyddid. Dyma sain derfynol yr araeth : "Gelwir arnom ni, a berthynwn i'r Eglwysi Rhyddion, yn enwedig arnom ni a berthynwn i'r Eglwysi Cynulleidfaol, tadau y rhai a lafuriasant yn hir ac a ddioddefasant lawer o galedi dros ryddid a gwirionedd ac ysprydolrwydd y ffydd—gelwir arnom ni gan leisiau dewr ein gorphenol ardderchog i ddal i fyny'r meddylddrychau godidog hyn, a'u dwyn i fuddugolorfoleddus, fel y gallom, heb atalfa na rhwystr, wthio yn mlaen achos ein hanwyl Arglwydd a'n meistr Iesu Grist, hyd nes gwawrlo'r dydd ac y ffy'r cysgodau ymaith." Ie,

DYNA'R FFORDD RAGORACH.

Dyna'r ddelfryd. Nid cydffurfiaeth nac unffurfiaeth ; ond perffaith ryddid. Yn awyrgylch rhyddid perffaith y blagura ac y ffyna ac y cynydda'r bywyd ysprydol yn oreu. Y mae wedi cymeryd hyd yn nod i arweinwyr ein Heglwysi Rhyddion ddau cant a haner o flynyddau i ddod i weledigaeth weddol gyflawn o'r gwirionedd hwn. Dywedaf yr arweinwyr, am y rheswm nad yw cyfangorph yr Eglwysi Rhydddion wedi cael ond golwg aneglur, amherffaith, arno eto. Gesyd yr Eglwysi hyn i fyny eu credoau, a dywedant, "Hyd yma, ac nid yn mhellach." Ni olyga'r gair *rhyddion* yn yr ymadrodd "Eglwysi Rhyddion" ddim yn ychwaneg na rhyddid oddiwrth lyffetheiriau'r wladwriaeth. O ryddid barn nid oes yn yr Eglwysi hyn ddim—o leiaf, dim ond rhith o hono. Arweinia hyn ni yn ol at y mater y sylwyd arno ar ddechreu ein llith. Y diffyg rhyddid hwn yn yr Eglwysi Rhyddion ydyw y rhwystr mawr a wna'r hyn y dadleua awdwr yr erthygl y cyfeiriwyd ati drosto yn amhosibl, sef, y ddyledswydd o ddysgu i blant a phobl ieuainc yr olwg ddiweddaraf ar y Beibl. Ni faidd neb (neu ond ychydig) wneud hyn heb beryglu ei safle. Y mae gan yr Eglwysi eu safon o iawnffyddiaeth ; a melldithir y sawl a faidd groesi'r llinell. Y canlyniad yw fod cenadwri'r Eglwysi yn colli llawer o'i grym, a phobl yn dod yn ddifater mewn perthynas iddi. Y mae'r henafeiddiwch hwn a berthyn i addysg yr Eglwys, hefyd, yn arwain i eithafbwynt arall, sef anffyddiaeth. Pa un sydd waethaf—ai iawnffyddiaeth henafol, ynte anffyddiaeth—gadawaf i'r darllenydd farnu. Ond yr ydym—ffyddiog ydwyf o hyn—ar bwys

ADEG PETHAU GWELL.

Nid yn y gorphenol y mae perffeithrwydd—mewn syniadaeth mwy nag mewn ymddygiad. Y mae'r holl oesau, yn afrwydd ac araf, wedi bod yn palfalu at y goleuni gwell. Ni fu'r camrau yn un oes yn fras, nac yn aml. Nid yw hyn yn syndod, gan fod y rhwystrau mor fawr a nerthol—rhwystrau a gaent ei bodolaeth, yn benaf, mewn anwybodaeth. Y mae eisiau gwasgar cymylau anwybodaeth trwy wybodaeth berffeithiach o'r gwirionedd fel y mae yn adnabyddus i ni. Fel y gwneir hyn, daw'r camrau yn frasach, yn lliosocach, ac yn gyflymach, tuagat ganol dydd perffaith ryddid ysprydol. Ar ol gorphen y sylwadau uchod, tynwyd fy sylw o'm harsyllfan at nodyn byr, syml, mewn newyddiadur adnabyddus, mewn congl yn yr hwn nad arferaf ddisgwyl gweled dim a all fod yn werth gwneud sylw arbenig o hono. Dyfyniad ydyw o fisolyn

EGLWYS ANIBYNOL YN BRADFORD

ar yr hon y gweinidogaetha y Dr. Warchauer, enw adnabyddus i lawer o'n darllenwyr. Dyma'r geiriau dynodd fy sylw yn arbenig :—"Eglwys Rydd yw Eglwys Horton Lane, a groesawa i'w haelodaeth bawb a ddidwyll garant yr Arglwydd Iesu Grist, ac a ddymunant fod yn ddysgyblion iddo ; ni ofyna ymrwymiadau duwinyddol na derbyniad o osodiadau duwinyddol oddiwrth ei haelodau mwy nag oddiwrth ei gweinidog, unig rwymedigaeth yr hwn yw cyhoeddi'r gwirionedd fel y mae efe yn ei weled. Gan ymwrthod â phob prawf credoawl, a chredu fod datguddiad yn barhaol, byw, a chynyddol, ni a unwn â'n gilydd mewn addoliad o Dduw, yn ysprydd Ctist, ac yn ngwasanaeth dyn." Da iawn, onide? Ie, dyna'r cwbl sydd eisiau. Pan y daw'r eglwysi i gyd i'r safle hon—ac i hyn y maent i ddod—yna, ni fydd ond un Eglwys, gyda llawer o ganghenau, ac un bugail Iesu Grist.

GWELEDYDD.

EGLWYS LLOEGR YN NGHYMRU.

Mae brwydr Cymru yn cael ei hymladd yn Nhy y Cyffredin yn y dyddiau hyn. Mae dyhead ein cenedl am ryddid a chydraddoldeb crefyddol unwaith eto dan ystyriaeth yn mhrif lys ein gwladwriaeth, a mae y gobaith am ei lawn sylweddoliad yn fwy heddyw nag erioed o'r blaen.

Dyma'r trydydd cynyg i benderfynu pwnc Dadgysylltiad yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru, a chredaf fod buddugoliaeth yn y golwg y tro hwn. Mae gan bob cenedl ei nodweddion, ei delfrydau, ei *sentiments*, a'i dull o drefnu a llywodraethu ei bywyd ei hunan, a chyn byth y gall sylweddoli y goreu sydd ynddi, rhaid iddi gael rhyddid a chwareuteg i

WEITHIO ALLAN EI IACHAWDWRIAETH EI HUNAN.

Honiad Eglwys Lloegr yn Nghymru yw ei bod yn cyfarfod ag angenion ac yn meithrin a datblygu dyheadau y Cymry, ac yn eu cynorthwyo i gerdded yn mlaen a sylweddoli ei delfrydau mwyaf. A ydyw hyn yn wir? Pa le mae i ni edrych am yr ateb? I'r Eglwys ei hunan? Edrychwn ar ei bywyd, ar nifer ei haelodau mewn cymhariaeth a'r enwadau anghydffurfiol. Bu unwaith gan y Cymry eu heglwys eu hunain, yn cynrychioli eu dyheadau crefyddol, yn cyfarfod ag anghenion y genedl ac mewn cydymdeimlad â'u delfrydau. Eglwys yn parchu eu hiaith, yn cydnabod a pharchu eu hanibyniaeth, yn gwasanaethu i'w newyn a syched am Dduw a rhyddid a chyfiawnder.

Ond

DAETH ESTRONIAID I MEWN

i dori ar eu tangnefedd, i dreisio ac erlid eu blaenoriaid, i ymaflyd yn eu heiddo, i wawdio eu hiaith, i watwar eu delfrydau ac i ddiystyru eu hanibyniaeth. Nid oedd yn ddigon i erlid y Cymro allan o ddolydd ffrwythlon a hardd ei henafol gartref hwnt i Glawdd Offa, i fryniau a mynyddoedd gwyllt Walia, ond rhaid ei erlid hyd yn oed yma - rhaid ceisio lladd ei yspryd cenedlaethol, a'i atal i alw ar ei Dduw a thalu ei deyrnged iddo yn iaith ei tam a'i hen deidiau gwrol a ffyddiog oeddent wedi tywallt gwaed eu calon yn llawen yn eu hymdrech i gadw'r gelyn draw. A beth fu'r canlyniad? Daeth difaterwch, ofergoeliaeth a drygioni i mewn i'w bywyd. Yr oedd heb arweinydd crefyddol i gadw tân ei chrefydd yn fyw -heb eglwys mewn cydymdeimlad â'u delfrydau a'u gobeithion—heb gwmwl niwl y dydd na cholofn dân y nôs i'w harwain dros greigiau a thrwy ffosydd eu bywyd ar ffordd iachawdwriaeth ac anrhydedd.

'Roedd estron wedi eu rhwymo mewn rhwymau dieithr—ond

PLENTYN RHYDDID YW'R CYMRO;

mae fel y grug hardd sy'n tyfu ar fryniau a rhosydd ei enedigol wlad; wnaiff ef ddim tyfu a blaguro ond yn awyrgylch rhyddid; gwywo a marw wna mewn caethiwed.

Ac nid yn y canrifoedd pell yn unig oedd y cyflwr hyn o bethau yn bodoli. Yn eu llyfr "The Welsh People" gan Syr Brynmor Jones a Syr John Rhys cawn y geiriau canlynol:—"Suffice it to say that from the time of George I. down to 1870, none of the Bishops in the four Welsh sees were able to preach effectively in Welsh; and speaking broadly, the Episcopate during that period was English, not Welsh judged by whatever test one may be pleased to adopt." Wrth ddarllen hanes yr Eglwys ar hyd y canrifoedd diweddaraf, rhaid i'r mwyaf gobeithiol gydnabod mae methiant yw wedi bod. Am ganrifoedd lawer, cafodd ein gwlad iddi hi ei hunan, heb yr un mudiad crefyddol arall i dori ar ei rhydid—ond methodd afaelyd yn y bobl. 'R oedd ganddi gyfoeth, 'roedd gan ddi ei noddwyr—yr oedd tirfeddianwyr a chyfoethogion y wlad o'i hochr; yr oedd cyfraith y wlad yn amddiffynfa tucefn iddi.

Gallasai gael y wybodaeth oreu hefyd pe ewyllysiai; yr oedd y prifysgolion yn agored iddi—ac iddi hi yn unig, cofiwn. Yr oedd ganddi yr holl fanteision hyn, ac eto, ni wnaeth fawr i ddyrchafu y bywyd Cymreig nac i gyfoethogi cenedloetholdeb y Cymry.

Y pwnc mawr i ni i'w ystyred yw—a ydyw yr Eglwys Sefydledig yn llanw ei lle yn mywyd Cymry fel y gall hawlio yr

ENW O EGLWYS GENEDLAETHOL.

Ffolineb yw chwareu a ffigyrau fel y gwneir yn y dyddiau hyn gan y ddwy blaid. Os gall yr Eglwys brofi fod mwyafrif o drigolion Cymru yn aelodau o honi ac mewn cydymdeimlad â hi—mae yn iawn yn ei hawliau—os na—mae yn colli pob hawl fel Eglwys Genedlaethol. Ond yn ol *Report* y *Royal Commission*—mae y ffeithiau i gyd yn ei herbyn. Yn ol y ffigyrau, nis gall hawlio mwy na 193,081 o drigolion Cymru fel aelodau, tra mae'r enwadau anghydffurfiol yn medru hawlio dim llai na 587,000 o aelodau.

Cymerwn ei manteision arianol mewn cymhariaeth a'r enwadau anghydffurfiol. Mae yr Eglwysi Rhyddion yn gorfod talu ei ffordd eu hunain—yn gorfod adeiladu eu capelau eu hunain—cynal eu gweinidogion a thalu degwm i gynal yr Eglwys a'i offeiriadaeth.

Ar y llaw arall, mae gan Eglwys Lloegr ei hadeiladau prydferth, ei heglwysi, ei heglwysi cadeiriol, ei phersondai, ac yn ychwanegol, y mae ganddi yr incwm blynyddol £292,000. Gyda'r holl gyfoeth a'r manteision hyn, mae wedi methu cael gafael yn nghalon y Cymro; mae wedi methu cadw tân

crefydd i losgi yn ei fynwes; mae wedi methu diwallu angenion ei enaid; wedi methu enill ei barch, ei gydymdeimlad a'i gydweithrediad; wedi methu cadw'n ddilychwyn faner gysegredig ei genedlaetholdeb.

Mae y ffeithiau hyn yn amlwg i bawb, ac y maent yn rhesymau dros Ddadgysylltiad, nas gall yr un dyn rhesymol eu gwrthwynebu.

Mae hefyd yn honi hawl i arian sy'n perthyn i genedl y Cymry—tra nad yw y ddegfed ran o'r genedl yn derbyn un gwasanaeth am danynt.

"Paham na ddeuant i'r Eglwys ynte?" medd ambell un; ie, paham? Am eu bod yn methu cael yn yr eglwys yr hyn y mae eu henaid a'u calon yn hiraethu a sychedu am dano. Pob parch i bob Eglwyswr sy'n glynu wrth ei Eglwys ac sydd yn cael ynddi foddlonrwydd i'w feddwl, ei enaid a'i galon—ond mae eisiau estyn yr un parch a'r rhyddid i'r miloedd mwyafrif sydd yn yr eglwysi anghydffurfiol, a'u gosod ar yr un "level" ag Eglwys Lloegr.

Mae'n rhaid i bob un sydd yn credu yn nghyfiawnder Duw gydnabod yn agored fod enaid yr anghydffurfiwr yr un mor werthfawr ac anwyl yn meddwl a chalon y Tad mawr, ag enaid yr Eglwyswr—a'r cyfan ydym yn ofyn am dano fel anghydffurfwyr heddyw ydyw cydraddoldeb (*equality*). Nid yw anghydffurfwyr yn gofyn am un geiniog o'r arian roddwyd i'r Eglwys ar ol y flwyddyn 1662 gael ei chymeryd oddiarni a'i rhoddi at achosion cenedlaethol. Cyn y flwyddyn 1662, 'roedd yr Eglwys fwy neu lai, yn cynrychioli'r genedl yn gyfan—felly 'roedd yr arian roddwyd iddi yr adeg hono yn perthyn i'r genedl gyfan. Yn 1662 gyrodd hi allan rai o'i hetifeddion, rai o'i meibion a'i merched gwrolaf, a daeth yn *un* Eglwys yn mhlith llawer -a phob cyfoeth roddwyd iddi er y dydd hwnw, mae yn iawn iddi ei gadw. Yr hyn y mae ein gwlad yn gofyn am dano heddyw ydyw—"Rhoddwch arian y genedl at wasanaeth y genedl—ac arian yr Eglwys at wasanaeth yr Eglws."

Yr enwadau anghydffurfiol sydd wedi cadw bywyd crefyddol a llenyddol Cymru yn fyw oddiar y ddeunawfed ganrif. Anghydffurfwyr yw beirdd, pregethwyr, gwleidyddwyr a'r llenorion mwyaf yn hanes Cymru y ganrif ddiweddaraf—i nodi ond ychydig o honynt, cymerwn Islwyn, Ceiriog, Dafydd Morganwg, a Ben Bowen fel beirdd; fel emynwyr,—Williams Pantycelyn, Ann Griffiths, Iolo Morganwg; fel pregethwyr,—John Elias o Fôn, Rowlands Llangeitho, Howel Harris, Dafis Castell-Hywel, Herber Evans, a John Evans, Eglwysbach; fel gwleidyddwyr—Henry Richard, Tom Ellis a Lloyd George; Daniel Owen ac Allen Raine fel nofelwyr.

Ar fynwes anghydffurfiaeth eu meithrinwyd oll; yn nghalon syml, diaddurn a llwm y wlad y cawsant eu gweledigaethau, y rhan fwyaf o honynt; i anghydffurfiaeth y mae ein cenedl yn ddyledus am danynt. Ac eto, Eglwys Lloegr sydd yn cael y lle blaenaf gan lywodraeth ein gwlad.

Gallwn ddweyd yn ddibetrus, mai yr eglwysi anghydffurfiol yw

EGLWYSI BYW EIN GWLAD,

gyda'r eithriad o ambell un yma a thraw. Ynddynt hwy y mae brydfrydedd, gweithgarwch a blaenfynediad. Aelodau yr eglwysi hyn sydd yn dangos sel a hunanaberth.

Mae yr Eglwys Sefydledig yn casglu yn flynyddol at gynal ei offeiriadaeth tua £48,972. Mae yr eglwysi anghydffurfiol yn casglu y swm anferth o £426,597 tuag at eu gweinidogaeth. Edrychwn y cyfeiriad bynag a fynwn, a gwelwn yn union mai yr eglwysi anghydffurfiol yw yr eglwysi gweithgar—yr eglwysi sydd yn cynwys y lle blaenaf yn mywyd ein cenedl ac mewn cydymdeimlad a'i hysbryd rhyddfrydig ac anibynol. Yn y *Convocation* yn Canterbury yr wythnos o'r blaen, rhoddodd

TRI O ESGOBION MWYAF BLAENLLAW Y WLAD

eu pleidlais o du Dadgysylltiad sef,

esgobion Henffordd, Lincoln a Rhydychen. Gwnaeth Esgob Rhydychen apêl at yr Archesgob a'i gyd-esgobion i addef yn agored fod yr Eglwys wedi colli gafael ar genedl y Cymry, ac i roddi eu cefnogaeth i'r mesur dros Ddadgysylltiad sydd gerbron Tŷ y Cyffredin yn bresenol.

Yr ydym fel Undodiaid erioed wedi sefyll dros ryddid a chwareu-teg yn mhob peth; byddwn ffyddlon i'n traddodiadau; rhoddwn ein cydymdeimlad a'n cefnogaeth i'r sawl sydd yn ymladd brwydr rhyddid crefydd drosom fel Cymry yn y dyddiau hyn—y bobl sydd yn gorfod gwynebu gwawd a sèn Eglwyswyr oherwydd eu bod yn gofyn am gyfiawnder, am gydraddoldeb, am chwareu-teg.

Brwydr yn erbyn galluoedd yr Eglwys oedd brwydr

EIN GWILYM MARLES

yn y ganrif ddiweddaf; bu ffyddlon hyd angeu; yr oedd gwaed coch y Celt yn llanw ei wythienau, ac ysbryd rhyddid ac anibyniaeth y Cymro yn cyffroi ei fynwes—a gorchfygodd ei holl elynion.

Er mwyn addysg rydd i blant y dyfodol; er mwyn i'r cenedlaethau sydd yn dod i gael rhyddid i ddatblygu y goreu sydd ynddynt; er i blant Cymru gael chwareu-teg i addoli eu Duw yn ol y goleuni sydd ynddynt—yn ol cyffroadau eu cydwybod eu hunain—yn ddidramgwydd—heb yr un Pab neu Esgob sefyll rhyngddynt a'u Duw—rhoddwn ein cefnogaeth a'n cydymdeimlad i'n cydwladwyr sydd yn ymladd brwydr rhyddid a chydraddoldeb drosom yn y dyddiau hyn.

Yn nghrefydd cenedl y mae ei nerth a'i anrhydedd—ac nis gall yr elfen grefyddol ddatblygu i'w chyflawnder tu fewn i gylch cyfyng y deugain erthygl ond un: mae Duw yn fwy eang nag erthyglau unrhyw eglwys—mae crefydd yn fwy na'r Llyfr Gweddi Gyffredin—mae profiad crefyddol y gweinidog anghydffurfiol yn llawn mor ddwfn a dyrchafol a phrofiad yr Archesgob—mae plentyn anghydffurfiaeth yn gallu gwasanaethu ei Dduw a'i genedl allan yn y byd lawn cystal a phlentyn yr eglwys. Y cyfan ofynwn am dano yw rhyddid a chydraddoldeb i'r naill a'r llall. Mae rhyddid yn fwy anwyl i ni nag awdurdod Archesgob. Mae anibyniaeth yn esgynfa i berffeithrwydd y natur ddynol.

J. GLYNNE DAVIES.

Aberdâr.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas uchod yn Nhgapel-y-fadfa, dyddiau Mercher ac Iau, Mehefin 26 a 27. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fercher gan y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul, a phregwyd gan y Parchn. J. Cararra Davies, Cefncoedycymer, (1 Cor. xiii. 9, 10, 13), ac E. R. Dennis, Clydach Vale, (Job xxviii. 7). Boreu Iau dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. Evans, Cribyn, a phregethwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar (1 Bren. xviii. 21). Ar ol y bregeth hon cafwyd anerchiadau byrion a gwresog gan Mr. Harold Bailey a Mr. G. H. Clennell (cynrychiolwyr y Bwrdd Presbyteraidd), Proff. Phil. Moore, B.A., Caerfyrddin, a'r Parch. W. Tudor Jones, Llundain (cynrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor).

Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn gan y Parch. John Davies, Alltyplacca, a phregethwyd gan y Parchn. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield (2 Bren. ii. 13), a Jenkyn Thomas, Glossop (Ioan xi. 9—"Onid oes deuddeg awr yn y dydd!" Deehreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a phregethwyd gan y Parch. J. Glynne Davies, Aberdar (Luc x. 3), a D.G.Rees,Trebanos (Marc x. 17—22). Cafwyd tywydd dymunol iawn dydd Mercher, ac fel 'roedd y prydnawn yn heneiddio credem fod genym sail i gredu y byddai iddo gael ei ddilyn gan ddiwrnod o haf. Yn hyn siomwyd ni yn fawr. Dechreuodd y gwlaw ddisgyn yn gynar boreu dydd Iau, a daliodd ati i ddisgyn drwy'r dydd yn ddidor. Er hyny i gyd cafwyd cynulliadau ardderchog—yr oedd y capel yn gysurus o lawn nos Fercher ac yn orlawn dydd Iau. Gwelwyd cynrychiolwyr yno o'r oll o'n cynulleidfaoedd yn Ngheredigion ac yn eu plith yr oedd amryw o wir ffyddloniaid yr enwad. Er fod deg a rhagor o filldiroedd gan rai o honynt i fynd gartref, gwelwyd hwynt yn eistedd ac yn gwrando yn hamddenol yn y gwasanaeth olaf nos Iau. Yr oedd y cyfarfodydd o'r dechreu i'r diwedd yn eithriadol o lwyddianus. Yr oedd yr oll o'r pregethau yn amserol, grymus, ac o safon uchel a'r gwrandawiad yn hynod o astud a chynorthwyol. Pan gofiwn mai dynion cymharol ieuainc oedd y mwyafrif o'r pregethwyr, mae genym achos i lawenhau wrth feddwl fod yna nifer o bregethwyr a gweinidogion ieuainc addawol ac ymroddgar yn codi i gymeryd i fynu fantell yr hen arweinwyr. Dim ond un henafgwr fu'n ein hanerch yn y cyrddau hyn, sef Mr. Jones, Aberdar, a phe baem yn rhoi gwyliau i'r llygad borau y dydd Iau uchod gan geisio gadael i'r clust geisio dyfalu oedran y pregethwr yna buasai'n rhaid i ni gredu mai pregethwr yn ei amser goreu; mai dyn canol oed o brin, oedd yn y pwlpud. Er fod y bregeth, ar dystiolaeth y pregethwr ei hun, yn hen, yr oedd y traddodiad yn ieuanc. Y Parch. Jenkyn Thomas oedd y pregethwr apwyntiedig. Disgwyliem bregeth dda ganddo ac ni chawsom ein siomi. Yr oedd ganddo bregeth alluog—pregeth ymarferol, yn llawn o gynghorion, a thraddodwyd hi gyda nerth. Teimlwn yn ddiolchgar iawn iddo ef a'r Parch. E. Gwilym Evans am ddod y fath bellder ffordd i'n gwasanaethu.

Ofnai rhai y buasai cyfarfod y prydnawn yn cael eu nodweddu gan dipyn o Dic-Shon-Dafyddiaeth, gan mai dau Gymro o wlad y Sais oedd i'n hanerch—ond nid felly y bu—cafwyd Cymraeg, gloew, llithrig, a thipyn o hwyl Cymreig yn y fargen. Diolchwn yn gynes i'r oll o'r brodyr am eu gwasanaeth gwerthfawr gan hyderu y bydd i'r had da a hauwyd ddwyn ffrwyth da mewn llawer calon. Yn ychwanegol at y rhai a enwyd uchod yr oedd y gweinidogion a'r myfyrwyr canlynol yn bresenol. Parchn. R. C. Jones, Llanbedr; Eric Davies (A.), Treorky; E. G. Edwards (B.), Cwrtnewydd; T. Lloyd, Ficer Talgarreg a Chapel Cynon; Mr. D. Cellan Evans, Pencader; a Mr. Ben Davies, Caerfyrddin. Ceir hanes gweithrediadau y Pwyllgor gan arall.—*A.B.*

GWEITHREDIADAU Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd y Pwyllgor blynyddol yn Mwlchyfadfa, dydd Iau, Mehefin 27, 1912, pryd yr oedd y Llywydd—y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield, yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol. Darllenwyd adroddiad y Trysorydd, a phasiwyd ar iddo gael ei archwilio fel arfer. Darllenodd yr Ysgrifenydd ei adroddiad a phasiwyd ei gyhoeddi yn YR YMOFYNYDD. Darllenwyd adroddiad y Pwyllgor Arianol a phasiwyd gwneuthur y rhoddion (*grants*) canlynol:—Trysorfa y Llyfr Emynau Newydd £10; i'r Parch. L.Williams at Ciliau, £10; i'r Parch. John Davies at Capelycwm, £5; i Panteg,

£5; i Caeronen a Chapelycwm at wasanaethau neillduol (ar amodau) £2 yr un; i Drysorfa y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, £1 1s.; a'r *National Conference*, £1 1s.; i Olygydd YR YMOFYNYDD, £6.

Etholwyd y Parch. E. Gwilym Evans yn Llywydd, y Parch. E. O. Jenkins yn Is-Lywydd, y Trysorydd, yr Ysgrifenydd a'r Archwilwyr fel o'r blaen. Etholwyd yr un aelodau ag o'r blaen ar y Pwyllgor Arianol, a'r un aelodau ar y Pwyllgor Cynghorol. Ar ol i'r Parch. R. J. Jones, M.A. roddi adroddiad mewn perthynas i'r Llyfr Emynau; pasiwyd fod yr Ysgrifenydd i ddanfon cais at arweinyddion canu yn y gwahanol eglwysi Cymreig yn gofyn ar iddynt ddanfon Taflen o'r Tonau garent weled yn y Llyfr Emynau Newydd. Pasiwyd hefyd fod y Daflen hono i fod mewn llaw erbyn diwedd y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiad Cymdeithas addysgol y Bobl Ieuainc. Ymddiswyddodd yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd ac apwyntiwyd y Parch. John Davies, Alltyplaca i fod yn ysgrifenydd a Mr. Josiah Jones, Garthowen i fod yn Drysorydd. Pasiwyd yn unfrydol y ddau benderfyniad canlynol—(1) Ein bod fel Cymdeithas o Eglwysi yn mawr lawenhau fod y Llywodraeth wedi dwyn i fewn i'r Senedd y Mesur o Ddadgdsylltiad a Dadwaddoliad Eglwys Loegr yn Nghymru, a'n bod yn mawr hyderu y bydd yn ddeddf y wlad yn ystod y Senedd Dymhor hwn. (2) Ein bod yn cymeradwyo yn wresog y mudiad sydd ar droed er casglu Cronfa tuag at ychwanegu at gyflogau isel rhai o'n gweinidogion, a'n bod yn gobeithio y gosodir gweinidogion eglwysi Cymru ar yr un tir a'r gweinidogion yn Lloegr.

PRIODASAU.

YN nghapel y Graig, Llandyssul, gan y Parch. Arthur Thomas, Mr. Daniel James Davies, B.Sc., Bodafon, Drefach, Llangeler a Miss Elizabeth Margaret Evans (Bessie) merch henaf Mrs. Evans a'r diweddar Mr. D. J. Evans, Alltyrodyn Arms, Llandyssul. Eiddunwn ar i'r bendithion goreu fod ar yr uniad ac yn eu cartref newydd yn St. John, Newfoundland, lle mae Mr. Davies yn dal swydd bwysig fel athraw a dadansoddydd.

YN nghapel y Graig, Trebanos, o flaen y Cofrestrydd, gan y Parch. Simon Jones, B.A., Katherine, unig ferch y Parch. a Mrs. D. G. Rees, a Mr. Charles Reginald Edwards, mab Mr. Thomas Edwards, dilledydd, Bridgend. Hir oes a phob dedwyddwch.

Os diwedd ddaeth ar garu,
Fel cara un y llall,
Yn awr, rhaid dechreu caru,
A charu yn ddiwall;

Plentynaidd yw y cyntaf,
Wrth rodio twyni serth,
Ceir gwel'd mai'r caru olaf
Yw'r caru sydd o werth.

Rhaid byw, yn awr, a charu,
A charu gyda byw,
A'r ddau, wrth eu gwahanu,
Yn wir, o werth, nid yw;

I Reginald a Katherine,
Doed cysur mawr, o hyd,—
Braint yw cael dod i feddiant
O'r penaf peth mewn byd.

—BANOS.

YN nghapel Gellionen, boreu Sul, Gorphenaf 14eg, o flaen y Cofrestrydd, Mr. N. L. Davies, a'r Parch. D. G. Rees, unwyd mewn glân briodas, Mr. David Griffiths, Ynysmeudwy, a Miss Moggie Walters, Trebanos.

Blodeuog fo'ch llwybrau
A gwyn fo eich byd;
Cydgenwch eich salmau
O hyd, ac o byd.

MARWGOFION.

MEHEFIN 24, wedi cystudd maith, yn 68 oed, Mary Jones, Llanfair Hill, Llanwenog. Yr oedd ei phriod wedi ei rhagflaenu oddiar y 23ain o Ragfyr diweddaf. Gadawodd wyth o blant i alaru'n ddwys ar ol mam dda. Claddwyd yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. J. Davies, gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. E. Glyn Edwards, ac yn y capel gan y Parch. D. Evans, y gweinidog.

MEHEFIN 24, yn 60 oed, Mr. David Jonathan Evans, Alltyrodyn Arms, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn fab i'r diweddar David Evans, Tregroes Shop, ac yn nai i'r diweddar Barch. Owen Evans, Cefncoedycymer. Cymerwyd yr ymadawedig ymaith yn anisgwyliadwy iawn. Tra efe yn cynorthwyo ei ferch gyda gorchwylion y teulu, heb yr un rhybudd, ac megis mewn amrantiad gwysiwyd ef o'r byd hwn i'r byd mawr tragwyddol. Yr oedd Mr. Evans yn adnabyddus i gylch helaeth iawn o gyfeillion, ac ar gyfrif ei serchogrwydd, ei gymdeithas lawen, a'i garedigrwydd parod, yr oedd yn un fawr hoffid yn y gymydogaeth. Claddwyd ei weddillion y dydd Gwener dilynol yn mynwent Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. J. J. Jones, M.A., Aberdar ac E. O. Jenkins, Llwyn. Arosed bendith y Nefoedd ar ei weddw a'i ddwy ferch yn nydd eu trallod a'u profedigaeth.

MEHEFIN 25, yn ddwy flwydd oed, Tydien, merch anwyl David W. Bowen, Trebanos. Geneth dlos oedd Tydien fach, un amser, ond nid hir y bu cyn gwaelu, a dod yn debycach i bridd y ddaear,—tynodd yno fel y tŷn y dyferyn i'r môr. Mae wedi cerdded yr un llwybr a'i mham,—blaenodd y fam yn ieuanc iawn, ond ymddatododd Tydien lawer iawn yn gynarach—

Dechreu'r daith yn forau,
Cyrhaedd cyn daw'r nos ;
Dyna'r oedd bwriadau
Calon Tydien dlôs.

Claddwyd ei theml eiddil o glai y Sadwrn dilynol yn mynwent Gelliionen, a'r Parch. D. G. Rees, gwenidog, yn gwasanaethu. "Gwyn eu byd y rhai pur o galon."

MEHEFIN 29, yn 78 oed, bu farw Benjamin Jenkins, Tynberth, ger Cribyn, yn ddisymwth iawn. Yr oedd wedi ei analluogi er's blynyddau i ddilyn ei alwedigaeth, ond er hyn elai oddiamgylch hyd y diwrnod olaf ; ac yn oriau cynar boreu y dydd uchod hunodd yn dawel a diboen. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa'r Cribyn er yn ieuanc. Bu am lawer o flynyddau yn ddiacon, a chyflawnodd ddyledswyddau ei swydd gyda ffyddlondeb, a dygodd anrhydedd ar ei swydd trwy ei gymeriad ardderchog. Hynodid ef am ei yspryd caredig ; nid oedd byth yn anhawdd i wneud pob cymwynas oedd yn ei allu i'w gwneud. Trwy hyn enillodd iddo ei hun barch dwfn cylch eang neillduol. Gwelwyd hyn yn amlwg dydd ei angladd yn y dorf luosog ddaeth yn nghyd i dalu iddo'r gymwynas olaf, o enau y rhai na ddelai allan ond geiriau o ganmoliaeth barchus. Gadawodd weddw a chwech o blant mewn galar dwys ar ei ol ; ond er galaru o honynt, y mae'r goffadwriaeth am dano yn felus iddynt. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys Dihewid y dydd Mawrth canlynol. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn; awd trwy y rhan ddefosiynol gan y Parch. L. Williams, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. B. Carolan Davies.

GORPHENAF 7, ar ol ychydig ddiwrnodau o gystudd caled, Rachel,

anwyl briod William Evans, 21, Baptist Square, Blaenllechau (gynt Penffynon, Talgareg), yn 37 oed, gan adael priod, pedwar o blant bychain, tad, a pherthynasau ereill mewn galar. Yr Iau canlynol hebryngwyd ei chorff yn y gerbydres hyd Llandyssul ac oddi yno mewn elorgerbyd i fynwent Capelyfadfa, lle y gosodwyd ef i orwedd yn ymyl corff bychan ei phlentyn. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Y Sul canlynol traddododd Mr. Jenkins bregeth angladdol yr ymadawedig i glywedigaeth cynulleldfa luosog. Yr oedd yr ymawedig yn briod ymroddgar ac yn fam hawddgar. Boed y Nef yn dirion wrth y priod a'r plant sydd wedi eu hamddifadu o'u gwasanaeth a'i thynerwch.

GORPHENAF 11, yn 84 oed, Margaret Evans, Cledlyn Park, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd yn y ty ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, ac yn y capel a'r fynwent gan y Parchn. Lewis Williams a B. Carolan Davies. Gadawodd fab a merch a phedwar o wyrion i alaru'n ddwys ar ei hol. Yr oedd yn wyres i frawd y Parch. Thomas Evans, Aberdar, ac wedi ei bendithio â llawer o allu meddyliol y dyn mawr hwnw. Treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd yn ardal Rhydygwin, ond yr oedd yn ddiweddar wedi symud gyda'i hwyres yr hon sydd ysgolfeistres yn y Gorsgoch, i'r lle uchod.

GORPHENAF 11, yn 28 mlwydd oed, Jane, anwyl briod Hezeciah Davies, Gwernllwyn, ger Pontardawe. Cyrhaeddodd ein chwaer ymadawedig orsaf derfynedig ei thaith yn dra chynar, pan nad oedd y wawr ond megys wedi newydd ddiflanu, a'r dydd ddim ond megis wedi dechreu tori ar y teulu ieuanc. Caled meddwl beth yw diben gwahanu gwr a gwraig,—dwyn ymaith y fam gariadus, a gadael plant bach yn unig, a'u mham ar eu min mor aml. Ond rhaid goresgyn ewyn a ffyrnigrwydd y dòn. Yr hyn ddengys y parch mwyaf trwyadl i'r chwaer hoff yw yr ymdrech wneir eto gan ei chydmar unig tuag at y plant er ei mhwyn. Y dydd Llun canlynol, daeth torf enfawr yn nghyd i'w hebrwng i dy ei hir gartref, yn mynwent Gellionen ; a chyn codi ei hangladd bedyddiwyd ei baban olaf-anedig, Howell Oswyn Davies gan y Parch. D. G. Rees, gweinidog, ar arch brydferth ei fam. Ac mor awgrymiadol oedd yr ordinhad,—y fam yn fud mewn arch, a'r baban bach yn gwneud llais yn mraich ei fodryb. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. G. Rees ; gweddiwyd gan y Parch. J. Price, Rhydyfro, gweinidog ein chwaer ymadawedig ; a chafwyd gweddi ar lan y bedd gan Mr. D. Baran Jones. Eiddunwn Dduw yn rhwydd i'n brawd ymadawedig sydd wedi ei adael yn unig gyda'i ddau blentyn bach yn yr anial niwlog. Ymgysura, O gyfaill, anwyl !

Goleuni yr haul glanwawr—dywyno
I dy anedd rhinwawr ;
Yn dduwiol yn y dduawr—
Bydd lawen, cei wên y wawr.

Garedig haul, gwasgara
Y niwl sydd yn amgau
O gylch y teulu yma,
Fel bydd i'r nos fyrhau.

GORPHENAF 16, bu farw Eleanor Davies, Pensarn-mynach, ger Cribyn, yn 56 oed, ar ol amryw fisoedd o waeledd. Gadawodd dad oedranus (i'r hwn y bu yn gweini er pan yn ieuanc iawn) a phump o blant i alaru ar ei hol. Dydd Gwener canlynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Eglwys Llanwnen gan dorf luosog. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

MANION AC HANESION.

Y mae Mr. Watkin Samuel Jones, mab y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, newydd enill y radd o M.Sc. (Rhydychen). Os nad ydym yn camsynied wele raddau Mr. Jones ar hyn o bryd: B.A., B.Sc. (Cymru), M.A., M.Sc. (Rhydychen). Llongyfarchwn ef yn galonog ar ei lwyddiant. Uwchach eto yr el.

Y Graig a Gellionen. — Yn nghapel Gellionen, y Llungwyn, rhoddwyd gwledd o dê a chacen flasus i ddeiliaid yr Ysgol Sul; a chroeshawyd hefyd pawb ereill cysylltiedig â'r achos. Cafodd y plant bach a'r plant mawr, hefyd, bob peth wrth eu bodd. Diolchir i bawb am wneud eu rhan gyda'r wledd.——Sul —boreu, prydnawn a hwyr, a Llun—prydnawn a hwyr, Mehefin yr 2il a'r 3ydd, cynhaliwyd cyfarfodydd sefydlu y Parch. Dafydd Gwenog Rees yn weinidog Gellionen a'r Graig. Pregethwyr apwyntiedig y cyfarfodydd hyn oeddynt y Parchn. E.O. Jenkins, Llwynrhydowen, a J Davies, Alltyplaca. Blin genym ddweyd i'r olaf gael ei alw yn ol boreu boreu Llun, i wasanaethu mewn angladd. Cymerwyd ei le, nos Lun, gan y Parch. David Jenkins (Urbanus), Rhos, Cilybebyll, a chawsom ganddo bregeth nerthol iawn. Yr oedd y cyrddau pregethu drwy y Sul a nos Lun, yn ychwanegu anrhydedd mawr at anrhydedd parod y pregethwyr. Pregethwyd i'r dyn cyffredin ei grebwyll, a'r araf ei gyrhaeddiadau; a phregethwyd hefyd i'r cawr meddylgar, a'r dyfn, a'r pellweledydd gwrandawus. Un peth a wyddom, nad aiff gwirioneddau agos a gwerinol byth ar goll oddiwrth serch a hoffder y ddau ddosbarth a nodwyd. Bywyd hwylus, ac yni yn y cyrddau oedd y canu blasus gawsom. Os oes rhywbeth yn lladd effaith canu cynulleidfaol,—yr arafedd a'r llesgedd poenus sydd mewn rhai eglwysi yw hyny. Dechreuwyd y cyfarfod i sefydlu Mr. Rees am ddau o'r gloch dydd Llun. Awd drwy y rhan ddefosiynol gan y Parch. E. O. Jenkins. Llywyddwyd gyda'r deheurwydd llwyraf gan David Davies, Ysw., Dysgwylfa. Darllenodd y Llywydd lythyrau amryw oddiwrth bregethwyr a lleugwyr, a chyfeillion agos a phell, yn datgan eu dymuniadau da ar yr uniad hapus, a llwydd mawr i'r achos—yn nghyda bod yn flin am nad allent bresenoli eu hunain yn y cwrdd hwn. Siaradwyd ar ran a thros yr eglwys gan Meistri John Hopkin, Henry Morgan, Lewis Hopkin gyda phenillion; ac yna rhoddwyd y cyfarfod yn rhydd i ereill. Cafwyd siarad cymysg a chyffredinol gan y Parchedigion D. Jenkins, Rhos; J. Price, Rhydyfro; Llewelyn Boyer, Danygraig, yr hwn a ddywedodd ei fod wodi dod o D(d)anygraig i'n helpu ni i osod Mr. Rees yn ddiogel ar y G(g)raig; D. Gower Richards, Gosen; Miss Rosser, Abertawe, ac E. O. Jenkins, Llwyn. Atebodd Mr. Rees i'r oll yn hapus a ffyddiog, mewn araeth flasus, fer a chryno. Diweddwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. Ll. Boyer. Hyderwn y gwna pawb eu goreu gyda Mr. Rees i ddweud pob gair er mwyn, a gwneud pob peth dros wirionedd—dyma enaid pob crefydd. Yn y Graig, nos Sul, Mehefin 30ain, cafwyd "*gwasanaeth y blodau.*" Blodau talent a blodau naturiol. Amcan gwasanaeth o'r natur hwn yw, wrth ddod a blodau prydferth i'r capel, gwasgu y ffaith bwysig adref i galonau pawb, y dylem fel crefyddwyr, ymdebygoli fwy-fwy bob dydd i'r blodau. Pe bae bywydau dynion mor brydferth a'r blodau, dyna baradwys fyddai y byd yma. Cludwyd wmredd o flodau cyn y gwasanaeth i'r capel gan chwiorydd mewn oed, ac yn ystod y gweddill o'r cwrdd dygodd y plant bach eu cwlwmau a'u twfau i fwrdd y sedd fawr bob yn un ac un. Wedyn, cafwyd adrodd a chanu gan y plant; a'r oll o'r canu a'r adrodd yn cyfateb i'r olygfa hardd oedd o'n blaen. Mr. Rees oedd y llywydd, a gwyddom iddo fod ar uchelfanau o fwynhad. "Melus, moes eto."

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

Buy through the Post!

Wouldn't it be handy to have one of the largest and finest Stores in the Kingdom just round the corner? Where you can get everything you may require for Personal Wear or complete House Furnishing.

You can have it even nearer than that. Through the medium of our Special Post Order Department our resources are brought practically to your door.

We employ a separate Staff to attend solely to Post Orders. Your order will receive the same painstaking attention as if you selected the Goods personally, because we want you to be pleased when they arrive.

IF for any reason — or no reason — you don't want them, we want them back and will at once refund the money.

We bring Ben Evans' Stores to you.

BEN EVANS & CO. LTD.

SWANSEA.